

ADRODDIAD

TASGLU

CYDRADDOLDEB HILIOIOL

CAERDYDD

MAWRTH 2022



RHAGAIR

Datganiad gan Gadeirydd Tasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd

Mae Cadeirio Tasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd wedi rhoi cyfle anhygoel imi wasanaethu fy ninas, fy nghymuned a holl drigolion Caerdydd. Fel un sydd wedi byw erioed yng Nghaerdydd a Chynghorydd sy'n gwasanaethu Butetown, sy'n cynnwys un o'r cymunedau hynaf o bobl dduon yn y Deyrnas Unedig, mae'r daith hon wedi bod o arwyddocâd personol mawr imi.

Drwy gydol rhaglen y Tasglu, rwyf wedi cael fy ysbyrdoli gan ddyheadau a gweledigaeth trigolion Caerdydd, o bob rhan o gymdeithas, wrth weithredu i sicrhau cydraddoldeb hiliol yn ein dinas.

Cafodd y Tasglu ei greu'n unol ag addewid Cyngor Caerdydd i ddefnyddio ein grym arweiniol fel awdurdod lleol i lywio newid yn ein prifddinas, gan gyfrannu at gymdeithas decach a mwy cyfartal i'n cymunedau o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, p'un a ydynt wedi bod yma ers tro, neu'n newydd-ddyfodiad.

Yn sgil llofruddiaeth giaidd George Floyd yn UDA, yn naturiol daeth ymdeimlad aruthrol o ddictor a thristwch i'r wyneb ynghylch maint yr anghyfiawnder hiliol byd-eang sy'n parhau yn ein cymdeithas heddiw. Roedd y digwyddiad yn galw ar bob un ohonom i wneud mwy, ac nid oedd ar ein dinas ofn bod ar flaen y gad wrth newid a chydymdrechu am gyfiawnder hiliol. Roedd effaith anghymesur COVID-19, a welwyd yn lleol ac yn genedlaethol, ar gymunedau Duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig eraill, yn pwysleisio eto yr her hirdymor y mae'n rhaid inni fynd i'r afael a hi – gwneud Caerdydd, Cymru a'r DU yn lleoedd mwy cyfartal i'w holl ddinasyddion.

Cafodd y cynigion a amlinellir yn yr adroddiad hwn eu datblygu ar y cyd. Rwy'n ddiolchgar am ymdrechion llawer o bobl a sefydliadau lleol ledled Caerdydd wrth gyd-lunio'r argymhellion yn yr adroddiad, ac am helpu'r Tasglu i ganfod cyfleoedd ystyrlon am newid yn ein dinas.

Drwy gydol rhaglen y Tasglu, rydym wedi estyn allan at bobl leol a sefydliadau cymunedol i'w cynnwys, er mwyn sicrhau y byddai'r cynigion y byddem yn eu datblygu'n rhoi adlewyrchiad

cywir o brofiadau a blaenoriaethau cymunedau lleiafrifol ethnig Caerdydd. Rydym wedi gweithio'n galed i ymgorffori'r hyn a ddwedai cymunedau, a'r dystiolaeth academaidd am anghydraddoldeb ethnig, wrthym.

Hoffwn ddiolch i'r holl staff, i'n partneriaid ac i'n trigolion am gymryd rhan yn y rhaglen hon, a rhoi cydnabyddiaeth arbennig am arweinyddiaeth aelodau ein Tasglu am weithredu fel cyfeillion beirniadol drwy gydol y broses hon, drwy roi gweledigaeth, her a mewnwleidiad o'r cychwyn cyntaf hyd y diwedd. Gyda'n gilydd rydym wedi ymgymryd â'r genhadaeth bwysig hon yn llawn bwriad ac optimistiaeth am ddyfodol gwell. Mae hyn wedi esgor ar ddull strategol sy'n seiliedig ar gydweithio, cyd-ddealltwriaeth a chydymddiriedaeth. Mae'r adroddiad hwn yn gorff o waith y gall ein dinas ymfalchio ynddo.

Bwriedir i'r cynllun hwn fod yn ymarferol, gan amlinellu camau penodol i'w cymryd ar draws yr holl feysydd polisi allweddol a ddaeth i'r amlwg fel ein blaenoriaethau, ac a ddewiswyd am eu potensial i greu newid a'u harwyddocâd wrth lywio profiadau trigolion Caerdydd sy'n Ddu ac o leiafrifoedd ethnig, a'r cyfleoedd a gânt.

Mae ein gwaith ar gydraddoldeb hiliol yn lasbrint ar gyfer gwaith Caerdydd yn y dyfodol ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn fwy cyffredinol. Yn ogystal â chreu gweithlu sy'n gwahodd talentau amrywiol, ein nod yw mynd ati'n frwd i adeiladu gweithlu sy'n gwir gynrychioli'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu drwy'r bobl yr ydym yn eu recriwtio a'u meithrin.

Rwy'n gobeithio, ac yn disgwyl, y bydd cymunedau Gwyn y dosbarth gweithiol hefyd yn elwa ar lawer o'n hargymhellion, gan fod angen gweithredu yn llawer o'r cymunedau hynny er mwyn cyfrannu i leihau anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol yn gyffredinol.

Mae'n bwysig cydnabod bod cyfyngiadau ar yr hyn y gellir ei gyflawni'n lleol wrth geisio trawsnewid y gynrychiolaeth o leiafrifoedd ethnig a chreu cyfleoedd ar eu cyfer. Gobeithiwn y bydd yr ymagwedd leol a'r weledigaeth



© Wales Online (Image: Rob Browne)

a amlinellir yn yr adroddiad hwn yn cael eu hatgyfnerthu'n genedlaethol, er enghraifft drwy dargedau cenedlaethol a deddfwriaeth gadarn ar gydraddoldeb, gan gynnwys amddiffyniadau cyfredol Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Hawliau Dynol 1998, ac y bydd Llywodraethau Cymru a'r DU yn ymuno â'n hymdrechion i osod esiampl gadarnhaol, drwy hyrwyddo mwy o amrywiaeth yn Whitehall a Gwasanaeth Sifil Cymru. Rydym yn pwysleisio hefyd fod angen trefniadau cyllido priodol ar gyfer llywodraeth leol i gefnogi camau gweithredu lleol ar gyfer cydraddoldeb hiliol. Gan hynny, roedd y Tasglu'n croesawu cyhoeddi Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru ar gyfer ymgynghoriad, a'r cydweithrediad cryf a gafwyd â thrigolion lleiafrifol ethnig Cymru hyd yma yn rhan o'r gwaith o'i lunio.

Mae ein hymagwedd uchelgeisiol at ffurfio ein Tasglu a llunio'r adroddiad hwn wedi ein rhoi ar flaen y gad o ran sicrhau cydraddoldeb hiliol mewn llywodraeth leol, a hynny nid yn unig yng Nghymru ond ledled y DU. Rwy'n eithriadol o falch o fod wedi cael cymryd rhan yn y daith hon tuag at newid fel Cadeirydd Tasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd, ond er mwyn sicrhau newid go iawn rwy'n daer ymwybodol bod angen i gydraddoldeb

hiliol fod 'o bwys i bawb', a bod angen ymgorffori camau gweithredu rhag hiliaeth yn nyluniad bywyd bob dydd ein dinas.

Gan hyn, dylai'r gydberchnogaeth a'r cydymrwymiad i gyflawni yn y meysydd gweithredu a nodir yn yr adroddiad hwn godi calon pob un ohonom, ynghyd ag ehangder y gwaith partneriaeth sydd eisoes ar y gweill. Mae'r gwaith hwnnw'n arddangos gweledigaeth ac ymrwymiad clir i greu prifddinas sy'n fwy cyfartal ar draws ein gwasanaethau cyhoeddus a'n sectorau gwirfoddol, ac o fewn ein cymunedau. I gyd-fynd â'r adroddiad hwn ar argymhellion y Tasglu ceir Adroddiad Cyflawni yn Atodiad B, sy'n amlinellu'r cynnydd a wnaed wrth weithredu argymhellion ein Tasglu hyd yma ac ymrwymidiadau i'w cyflawni yn y dyfodol gan gyrrff cyhoeddus a phartneriaid o fewn y ddinas.

Efallai fod gwaith Tasglu ein dinas ar ben, ond rwy'n hyderus nad yw ymdrechion ein dinas i roi terfyn am byth ar anghyfiawnder hiliol hirdymor ond megis dechrau.

Cyng. Saeed Ebrahim
Aelod Ward Butetown
Cadeirydd Tasglu Cydraddoldeb Hiliol
Caerdydd 2020-2022

TUDALEN Y CYNNWYS

Cyflwyniad	05
Ynglŷn â'r Tasglu Cydraddoldeb Hiliol	07
Data ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth Ethnig	14
Blaenoriaethau ein Tasglu	20
Thema 1: Cyflogaeth a Gweithlu Cynrychioliadol	22
Thema 2: Addysg a Phobl Ifanc	40
Thema 3: Llais y Dinesydd	50
Thema 4: Iechyd	62
Thema 5: Cyfiawnder Troseddol	70
Atodiad 1: Dosbarthiadau ethnig safonol a ddefnyddir yn y DU	84



© Wales Online (Image: Matthew Horwood)

CYFLWYNIAD

Yn sgil marwolaeth drasig George Floyd yn UDA gwelwyd protestiadau ledled y byd, gan gynnwys yng Nghaerdydd, yn rhan o'r ymgyrch Mae Bywydau Du o Bwys. Achosodd hyn i bobl ystyried sut rydym yn ymdrin â hanes cymunedau o bobl Dduon yn y DU, ac ystyried hefyd yr heriau parhaus y mae pobl o leiafrifoedd ethnig yn parhau i'w wynebu mewn cymdeithas heddiw.

Dros y deunaw mis diwethaf, gofynnwyd i Dasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd ganfod cyfleoedd ymarferol i wella cydraddoldeb hiliol yn ein dinas, gan ganfod ffyrdd newydd i ddefnyddio mecanweithiau lleol i wella canlyniadau i drigolion Lleiafrifol Ethnig.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r gwaith a gyflawnwyd gan Dasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd rhwng Gorffennaf 2020 a Mawrth 2022.

Hwyluswyd y gwaith hwn drwy gefnogaeth staff o Gyngor Caerdydd, a thrwy gyd-gefnogaeth a chyfraniadau gan bartneriaid o sectorau cyhoeddus a gwirfoddol y ddinas, gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Heddlu De Cymru a llawer o bartneriaid eraill.

Pam creu Tasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd?

Cafwyd cofnod helaeth o'r cyd-destun ar gyfer sefydlu Tasglu Cydraddoldeb Hiliol y ddinas mewn sawl astudiaeth, adolygiad ac ymchwiliad diweddar, a ddatgelai faint yr anghydraddoldeb hiliol a geir yn y DU, gan gynnwys:

- Yr Archwiliad Gwahaniaethau ar sail Hil, a gyhoeddwyd yn 2017, a ddangosai anghydraddoldebau rhwng gwahanol gefndiroedd ethnig o ran cyrhaeddiad addysgol, iechyd, cyflogaeth ac o fewn y system cyfiawnder troseddol.
- Adolygiad McGregor-Smith o hil yn y gweithle, a gyhoeddwyd yn 2017, canfuwyd bod pobl o gefndiroedd Du a Lleiafrifol Ethnig yn dal i fod o dan anfantais yn y gwaith, ac yn profi cyfraddau cyflogaeth is na'u cydweithwyr Gwyn.
- Adolygiad Lammy, a gyhoeddwyd hefyd yn 2017, lle canfuwyd tystiolaeth o ogwydd a gwahaniaethu yn erbyn pobl o gefndiroedd Lleiafrifol Ethnig yng nghyfundrefn gyfiawnder Cymru a Lloegr.
- Yr Adolygiad o'r Gwersi a Ddysgwyd yn sgil Windrush, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020, lle dangosodd y Swyddfa Gartref "anwybodaeth a difaterwch sefydliadol tuag at hil."

Er bod anghyfiawnder hiliol felly'n broblem sy'n bodoli ledled y DU, roedd creu ein Tasglu yn fodd i gydnabod pwysigrwydd rôl ddylanwadol arweinyddiaeth leol er mwyn dangos y posibilrwydd am newid. Gwnaethom ymrwmo i brofi ymagweddau newydd er mwyn gwella canlyniadau dinasyddion lleiafrifol ethnig drwy ddefnyddio mecanweithiau trawsnewid lleol a chanfod datrysiadau ar y cyd â thrigolion lleiafrifol ethnig lleol fel arbenigwyr, i ganfod eu profiadau byw personol.

Yn yr adran ar ddata yn yr adroddiad hwn, ceir disgrifiad manylach o'r data sy'n rhoi'r mewnwelediad gorau o anghydraddoldeb hiliol yn ein dinas. Nid yw'r hanes a adroddir am anghydraddoldeb ethnig drwy ddata Caerdydd yn anarferol nac yn unigryw o bell ffordd, ond mae'n creu darlun o wirioneddau cymhleth a brawychus.

Er mwyn sicrhau newid mae angen bod yn agored ac yn dryloyw wrth ddefnyddio data sefydliadau a system i ddisgrifio gwirioneddau anghydraddoldeb hiliol, a thrwy raglen y Tasglu, drwyddi draw, rydym wedi ceisio defnyddio'r data sydd ar gael i gryfhau ein dealltwriaeth o'r problemau yn ogystal â'r datrysiadau.



Mandad ac amcanion y Tasglu

Drwy adroddiad i Gabinet Cyngor Caerdydd, cytunwyd y byddai Tasglu Cydraddoldeb Hiliol yn cael ei ffurfio i weithio'n unol a'r amcanion canlynol:

- Gweithio gyda chymunedau a sefydliadau Caerdydd i wella cydraddoldeb hiliol, a rhoi blaenoriaeth i hynny, er mwyn creu dinas gynhwysol, gydlynus, lewyrchus a chynrychioliadol;
- Rhoi arweiniad i lunwyr polisi a strategaeth Caerdydd er mwyn sicrhau bod cydraddoldeb hiliol wedi'i gynnwys yn eu holl waith;
- Defnyddio grym y Cyngor i ddod a phawb ynghyd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yn y sectorau

Ein man cychwyn

Fel ein man cychwyn, roedd Cyngor Caerdydd eisoes wedi cymryd sawl cam cadarnhaol i gefnogi cydraddoldeb hiliol fel cyflogwr o bwys a sefydliad cyhoeddus yn y ddinas, gan gynnwys y canlynol:

- Penodi Noddwr Gweithredol ar gyfer hil – sef y Prif Weithredwr
- Llofnodi Siarter Hil yn y Gwaith, gan Busnes yn y Gymuned, fel ymrwymiad clir tuag at gydraddoldeb hiliol
- Archwilio a chyhoeddi data ar ein gweithlu ac ar fylchau cyflog ethnigwydd er mwyn cryfhau ein dealltwriaeth o'n gweithlu ac yn sail ar gyfer ein dull o recriwtio a dyrchafu staff o leiafrifoedd ethnig.

cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, gan weithio'n agos, lle bo angen, a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd;

- Cydgysylltu camau ac argymhellion i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol, gan ganolbwyntio ar ffrydiau gwaith a blaenoriaeth, a nodwyd mewn ymgynghoriad â thrigolion lleiafrifol ethnig y ddinas;
- Adrodd ar ein cynnydd o ran cydraddoldeb hiliol ac ar effaith gyffredinol anghydraddoldeb a gwahaniaethu ar gymunedau lleiafrifol ethnig Caerdydd.

- Gweithredu dull newydd o recriwtio sy'n ceisio lleihau rhagfarn ddiamwybod wrth lunio rhestr fer, drwy gael gwared â manylion personol fel enw a chyfeiriad.
- Adnewyddu ac ail-lansio'r hyfforddiant a gynigir gennym ar gydraddoldeb, sydd ar gael i'r holl staff, a'n rhaglen hyfforddi sefydliadol ar gyfer Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb.
- Cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2020-2024 sy'n cyfleu'n glir beth yw rôl gwasanaethau allweddol y cyngor o ran mynd i'r afael â phob math o anghydraddoldeb yn y ddinas, gan roi ystyriaeth benodol i feysydd fel anghydraddoldeb ethnig yn y marchnadoedd llafur a thai lleol.

YNGLŶN Â THASGLU CYDRADDOLDEB HILIOI CAERDYDD

Er mwyn sicrhau bod trigolion lleol o leiafrifoedd ethnig yn llywio ac yn cyfrannu at ein gwaith, mae'r broses o lunio rhaglen gynigion y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol wedi bod yn broses hynod gyfranogol.

Gwahoddwyd trigolion lleol i ymuno a Thasglu Cydraddoldeb Hiliol ein dinas drwy broses o benodiadau cyhoeddus agored a hygyrch. Bu hyn yn fodd i ddenu 60 o geisiadau a thrwy'r broses honno cafodd 14 o aelodau eu penodi o wahanol gefndiroedd proffesiynol, o amrywiaeth o leiafrifoedd ethnig, o wahanol oeddrannau a rhywiâu ac o bob rhan o gymdeithas. Roedd hi'n amlwg y byddai sicrhau cynrychiolaeth eang o brofiadau ac arbenigedd yn bwysig er mwyn creu amrywiaeth gynhwysfawr a safonol o gynigion lleol yn rhaglen y Tasglu.

Cafodd ceisiadau i fod yn aelod o'r Tasglu eu hasesu yn erbyn y fanyleb person ganlynol:

Gwybodaeth

- Gwybodaeth am gydraddoldeb hiliol ac ymrwymiad tuag at hynny
- Gwybodaeth am faterion polisi cymdeithasol ac economaidd allweddol sy'n effeithio ar gymunedau o bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig yng Nghaerdydd ac yng Nghymru

Profiad

- Tystiolaeth o brofiad o weithio mewn partneriaeth er mwyn cyflawni nodau cyffredin

Sgiliau

- Y gallu i feithrin perthnasoedd cryf, i ymgysylltu ag eraill ac i gyfathrebu'n effeithiol.

Cafodd aelodau hefyd eu dewis i sicrhau'r cydbwysedd gorau o ran cynrychiolaeth ar draws y sectorau canlynol:

- Plant a Phobl Ifanc
- Y Sector Gwirfoddol a Sefydliadau Cymunedol
- Gwasanaethau Cyhoeddus
- Prif Gyflogwyr a Busnesau Bach a Chanolig (BBaChau)
- Diwylliant a'r Celfyddydau
- Addysg gan gynnwys Addysg Bellach ac Addysg Uwch
- Chwaraeon
- Undebau Llafur



YN ATODIAD B YR ADRODDIAD HWN RHODDIR BYWGRAFFIAD O HOLL AELODAU'R TASGLU, GAN GYNNWYS Y CADEIRYDD, Y CYNGHORYDD SAED EBRAHIM, GAN EGLURO PA BROFIAD PROFFESIYNOL A PHERSONOL SYDD GANDDYNT SY'N BERTHNASOL I RAGLEN Y TASGLU.

Yn erbyn y meini prawf hyn, penodwyd yr aelodau canlynol.

- Asmut Price - Cadeirydd Rhwydwaith Du, Asiaidd a Lleafrifoedd Ethnig Caerdydd
- Emma Wools - Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu, Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru
- Keithley Wilkinson - Rheolwr Cydraddoldeb, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Catherine Floyd/Sian Griffiths - Ymgynghorydd Locwm ym maes lechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Marcus Walters - Cyfarwyddwr, Burges Salmon
- Anita Naoko Pilgrim - Darlithydd Prifysgol mewn Hil, Rhyw a Hanes, Y Brifysgol Agored
- Najma Hashi - Swyddog Cymorth Tim, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Salah Mohamed - Cyn Brif Weithredwr Cyngor Ffoaduriaid Cymru
- Yaina Samuels - Sylfaenydd Menter Gymdeithasol Hyfforddiant NuHi
- Daniel Mapatac - Myfyriwr blwyddyn olaf ym Mhrifysgol Caerdydd
- Eshaan Rajesh - Myfyriwr Chweched Dosbarth yn Ysgol Uwchradd Fitzalan a Chynrychiolydd o Gyngor Ieuenctid Caerdydd
- Yusef Jama - Gyrrwr Tacsio o Gaerdydd ac Ysgrifennydd Cangen Unite Caerdydd dros y Fasnach Tacsio
- Cyng Daniel De'Ath - Cynghorydd Presennol Plasnewydd a chyn Arglwydd Faer Caerdydd (2018-2020)
- Hilary Brown - Cadeirydd Canolfan Gymuned Butetown

Nodi Blaenoriaethau ein Tasglu

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyflym a manwl ym mis Awst 2020 i ofyn am safbwyntiau trigolion lleiafrifol ethnig ynghylch blaenoriaethau'r Tasglu. Bwriadwyd defnyddio hyn yn sail ar gyfer ffrydiau gwaith y Tasglu, y byddai pob un yn cydgyssylltu adolygiadau strategol o dystiolaeth, arferion a pholisi, ac yn cynhyrchu cynigion i'w gweithredu.

Dyma grynodeb o ganfyddiadau'r ymgynghoriad.

Cafodd cyfanswm o 869 o ymatebion eu cynnwys yn y dadansoddiad, yr oedd 40% ohonynt yn dod o gefndiroedd lleiafrifol Ethnig.

Cynigiwyd y meysydd canlynol fel meysydd ffocws cychwynnol i'w hystyried gan y Tasglu. Gofynnwyd am safbwyntiau ynglŷn â'r pum maes a gynigiwyd am eu bod wedi'u nodi fel meysydd lle gallai rhaglen weithredu gael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau trigolion a chymunedau lleiafrifol ethnig yng Nghaerdydd yn y tymor byr a'r tymor hwy.



Maent hefyd yn feysydd lle mae tystiolaeth leol a chenedlaethol yn dangos bod angen llawer o waith er mwyn sicrhau cydraddoldeb hiliol ar raddfa'r DU.

Meysydd ffocws a gynigiwyd	Crynodeb o'r ymatebion
Beth yn fwy y gellir ei wneud i sicrhau bod aelodaeth a gweithlu'r Cyngor yn cynrychioli amrywiaeth lawn y ddinas y mae'n ei gwasanaethu;	Roedd 74.9% o'r ymatebwyr yn cefnogi'r flaenoriaeth hon. Roedd 91% o'r ymatebwyr o gefndiroedd lleiafrifol ethnig yn cefnogi'r flaenoriaeth hon.
Profiadau plant a phobl ifanc o leiafrifoedd ethnig mewn addysg, yn gyson â'r gweithgor a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru i ganolbwyntio ar y maes hwn;	Roedd 79.1% o'r ymatebwyr yn cefnogi'r flaenoriaeth hon. Roedd 88.4% o'r ymatebwyr o gefndiroedd lleiafrifol ethnig yn cefnogi'r flaenoriaeth hon.
Cynorthwyo cymunedau lleiafrifol ethnig i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth;	Roedd 75.1% o'r ymatebwyr yn cefnogi'r flaenoriaeth hon. Roedd 93% o'r ymatebwyr o gefndiroedd lleiafrifol ethnig yn cefnogi'r flaenoriaeth hon.
Amrywiaeth yn y byd cyhoeddus, gan weithio'n agos gyda'r Tasglu a sefydlwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru i archwilio cerfluniau, enwau strydoedd ac adeiladau er mwyn mynd i'r afael â chysylltiadau Cymru â'r fasnach gaethweision;	Roedd 59.4% o'r ymatebwyr yn cefnogi'r flaenoriaeth hon. Roedd 78.7% o'r ymatebwyr o gefndiroedd lleiafrifol ethnig yn cefnogi'r flaenoriaeth hon.
Cefnogi cyfranogiad dinesig a democrataidd cymunedau lleiafrifol ethnig drwy eu hannog i gofrestru i bleidleisio a chymryd rhan yng Nghyfrifiad 2021;	Roedd 84% o'r ymatebwyr yn cefnogi'r flaenoriaeth hon. Roedd 91.5% o'r ymatebwyr o gefndiroedd lleiafrifol ethnig yn cefnogi'r flaenoriaeth hon.

Gofynnwyd hefyd i'r ymatebwyr drefnu'r meysydd ffocws hyn yn ôl eu blaenoriaeth. Dyma grynodeb o'r canlyniadau:



1. Dysgu a thyfu i fyny yng Nghaerdydd
2. Economi Decach
3. Amrywiaeth yn y Sector Cyhoeddus
4. Llais y Dinesydd
5. Amrywiaeth yn y Byd Cyhoeddus
6. 'Rhywbeth Arall'

YN ATODIAD C YR ADRODDIAD CEIR CANFYDDIADAU LLAWN A MANWL YR YMGYNGHORIAD HWN.

Sefydlu'r Tasglu

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol ar 1 Rhagfyr 2020 a chadarnhaodd y Cadeirydd a benodwyd a'r aelodau y meysydd gwaith a fyddai'n cael blaenoriaeth. Defnyddiwyd dadansoddiad cynhwysfawr o'r data sydd ar gael ar anghydraddoldeb ethnig a safbwyntiau trigolion y ddinas, a gafodd eu cynnwys yn ymgynghoriad y Tasglu, yn sail wrth ddewis y blaenoriaethau hyn.

Cadarnhaodd y Tasglu y tair thema flaenoriaeth ganlynol i'w harwain a'u datblygu gan Gyngor Caerdydd. Er bod gan Gyngor Caerdydd rôl bwysig fel cynullydd ar draws y themâu gwaith hyn, sylweddolai'r Tasglu fod angen ffocws partneriaeth eang ar eu cyfer hefyd, a oedd yn ymestyn y tu hwnt i'r Cyngor ei hun ac i rannau eraill o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Gan hynny, roedd yr is-grwpiau a ddatblygodd y rhaglen waith yn cynnwys amryw o asiantaethau ac yn elwa ar arbenigedd ehangach o'r ddinas a thu hwnt.

Rôl yr is-grwpiau

Gofynnwyd i bob is-grŵp gydgyfylltu adolygiadau strategol o dystiolaeth, arfer a pholisi er mwyn llunio cynnig o argymhellion byr, canolig a hirdymor i'w hystyried gan y Tasglu. Pe bai aelodau'r Tasglu yn cymeradwyo'r cynigion hyn, byddent yn cael eu trosglwyddo i'r bwrdd penderfynu priodol fel gweithgarwch a argymhellir i'w arwain gan y ddinas.

Roedd aelodaeth yr holl ffrydiau gwaith yn cynnwys cynrychiolaeth o blith aelodau'r Tasglu ag arbenigedd yn y maes perthnasol, swyddogion y Cyngor a rhanddeiliaid eraill o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, fel bo'n briodol ar gyfer pob thema. Drwy'r dull hwn, bu modd i'r Tasglu elwa ar arbenigedd ymarferwyr hygred a oedd yn cynnig cyngor ac yn cynorthwyo i nodi argymhellion o sylwedd yn seiliedig ar dystiolaeth er mwyn gwella cydraddoldeb hiliol yng Nghaerdydd o fewn pob ffrwd, a llais dilys trigolion lleiafrifol ethnig drwy gynrychiolaeth yn yr holl is-grwpiau.

Yn ystod rhaglen 18 mis y Tasglu, lluniodd pob is-grŵp cynigion cynhwysfawr ar gyfer newid.

A) Cyflogaeth a Gweithlu Cynrychioliadol: B) Addysg a Phobl Ifanc C) Llais y Dinesydd

Gan ymateb i safbwyntiau'r trigolion o fewn yr ymgynghoriad, sef y dylai meysydd ffocws pellach y Tasglu gynnwys lechyd a Chyfiawnder Troseddol, gofynnodd y Tasglu am gael cydweithio ymhellach â Bwrdd Lechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Heddlu De Cymru a Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerdydd i greu a datblygu rhaglen waith yn erbyn y ddwy thema ychwanegol hyn.


Cynigiodd y cyrff a'r partneriaethau hyn o'r sectorau cyhoeddus eu cefnogaeth tuag at amcanion Rhaglen y Tasglu, ac fe gafodd dau is-grŵp thematig arall eu creu:

D) Iechyd E) Cyfiawnder Troseddol

Cyflwynwyd eu cynigion mewn cyfarfodydd chwarterol o'r Tasglu Cydraddoldeb Hiliol ac yn dilyn trafodaeth, lle y'u mabwysiadwyd, fe'u trosglwyddwyd i'r bwrdd penderfynu perthnasol ar ffurf argymhellion.




Syniadau ar gyfer newid wedi'u harwain gan y ddinas: Ein proses



Trosglwyddo cynigion y Tasglu i'r byrddau penderfynu ar gyfer y ddinas

Esbonnir y trefniadau llywodraethu ar gyfer argymhellion y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol yn y diagram isod.



Lluniwyd Cylch Gorchwyl cynhwysfawr i helpu aelodau'r Tasglu i gyflawni eu rôl a chadarnhau cyrchfan ei argymhellion i'r Cabinet, i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a Bwrdd y Gymraeg a Chydraddoldeb ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Lluniwyd Cylch Gorchwyl hefyd i gefnogi pob is-grŵp. Mae'r rhain ar gael yn Atodiad D yr adroddiad hwn.

Beth am y thema Amrywiaeth yn y Byd Cyhoeddus a Cherflun Syr Thomas Picton yn Neuadd y Ddinas?

Un o nodweddion y mudiad Mae Bywydau Du o Bwys yw ei alwad i ailasesu'r modd y caiff unigolion yn hanes Prydain fu'n ymwneud â chaethwasiaeth a'r Ymerodraeth Brydeinig eu coffáu.

Yng Nghaerdydd, ffocws y gwaith hwn oedd cerflun Syr Thomas Picton yn y Neuadd Farmor yn Neuadd Dinas Caerdydd. Yn sgil ei yrfa filwrol a'i farwolaeth ym Mrwydr Waterloo roedd wedi cael ei gynnwys ymhlith casgliad 'Arwyr Cymru'.

Wrth i ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gynyddu o'i greulondeb fel Llywodraethwr Trinidad, a'i hymglymiad mewn caethwasiaeth, ychwanegodd llawer o drigolion y ddinas eu henwau at ddeiseb a oedd yn galw am gael symud y cerflun i leoliad mwy priodol.

Ceisiwyd mandad democrataidd ar gyfer y bwriad i gael gwared â'r heneb hanesyddol hon drwy ddadl a phenderfyniad gan y Cyngor Llawn. Galluogodd hynny i'r Cyngor ystyried agweddau ymarferol tynnu'r cerflun yn ddiogel a rheoli unrhyw oblygiadau cysylltiedig o ran statws rhestredig y Neuadd Farmor.

Yn ymgynghoriad cyhoeddus y Tasglu ac ar draws aelodaeth y Tasglu, roedd y farn yn glir y dylai rhaglen waith y Tasglu ganolbwyntio ar feysydd newid polisi a oedd â'r potensial mwyaf i newid canlyniadau difreintiedig grwpiau lleiafrifol ethnig yn y tymor byr a'r tymor hwy.

Gan gydnabod bod penderfyniad wedi'i wneud gan aelodau etholedig i gydgyssylltu'r gwaith o dynnu Cerflun Syr Thomas Picton o Neuadd y Ddinas, bod y Cyngor wedi ymrwmo i broses i gyflawni hyn a bod archwiliad cenedlaethol ar y gweill; 'Y Fasnach mewn Caethweision a'r Ymerodraeth Brydeinig: archwiliad o goffáu yng Nghymru' o dan arweiniad Gaynor Legall, dewisodd y Tasglu ganolbwyntio ar feysydd polisi eraill yn eu gwaith lleol, a pheidio mabwysiadu'r Thema Amrywiaeth yn y Byd Cyhoeddus ar gyfer eu rhaglen.

Nid yw hyn yn effeithio ar statws na chynnydd yr ymrwymiad i gael gwared â cherflun Syr Thomas Picton, sydd wedi'i gynnal yn barhaus drwy'r gweithdrefnau cynllunio perthnasol.

Mae gwybodaeth am hyn yn parhau i gael ei chyhoeddi ar borth cynllunio'r Cyngor, a lle bo'n briodol byddwn yn parhau i gyhoeddi gohebiaeth am hyn, pan gyrhaeddir cerrig milltir o bwys.



DATA AR GYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH ETHNIG YNG NGAERDYDD

Yn y bennod hon, rhoddir trosolwg o beth o'r dystiolaeth berthnasol ar amrywiaeth ethnig a chydraddoldeb hiliol yng Nghaerdydd. Mae'r dystiolaeth a gyflwynir isod yn defnyddio ac yn haenu ystod o ffynonellau o'r Cyfrifiad a'r Cyfrifiad Ysgolion, yr Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth, data o borthol Ffeithiau a Ffigurau Ethnigrwydd Llywodraeth y DU a Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

DARPERIR DATA PELLACH HEFYD AR BOB UN O FLAENORIAETHAU THEMATIG Y TASGLU FESUL PENNOD YN DDIWEDDARACH YN YR ADRODDIAD HWN EE CEIR HYD I DDATA AR WEITHLU'R CYNGOR YN Y BENNOD AR GYFLOGAETH A GWEITHLU CYNRYCHIOLIADOL.

Stori data cydraddoldeb hiliol Caerdydd: Mewnwelediadau a chyfyngiadau

Derbynnir yn eang bod angen gwella ansawdd y data ar ethnigrwydd a ddelir gan wasanaethau cyhoeddus. Mae hyn yn wir nid yn unig yn achos gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi ymgysylltu â Thasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd, ond hefyd ar draws ystod eang o wasanaethau cyhoeddus ar raddfa'r DU. Gan hynny, mae casgliadau data yn y dyfodol a'r defnydd ohonynt wrth ddylunio gwasanaethau wedi dod i'r amlwg fel maes â blaenoriaeth ar gyfer pob un o is-grwpiau'r Tasglu, fel argymhellid i gyrrf cyhoeddus yn y ddinas a thu hwnt.

Ar hyn o bryd ceir cyfyngiadau ar y data sydd ar gael ar raddfa leol, Cymru a'r DU er mwyn deall y materion a'r cysylltiadau'n llawn, ac yr oedd y Tasglu yn gobeithio eu defnyddio i fesur effaith y newidiadau polisi a'r ymagweddau newydd a argymhellir ganddynt yn y dyfodol. Am y rheswm hwn, mae'r Tasglu yn annog casgliadau data cadarn ar ethnigrwydd wrth gyflenwi gwasanaethau yn y dyfodol, ac yn annog cynnwys ystyriaeth o ddata ethnigrwydd wrth werthuso gwasanaethau yn y dyfodol, er mwyn cefnogi corff gwell o dystiolaeth ar 'yr hyn sy'n gweithio' wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol, a'i gwneud hi'n bosibl i rannu'r hyn a ddysgwyd ar raddfa ehangach.

Mae'n bwysig cydnabod na all y data a gyflwynir yma fyth fod yn hollol gynhwysfawr, ac roedd ein Tasglu'n ofalus i osgoi cyffredinol gormod o'r data

a oedd ar gael. Ar lefel unigol, ni fydd profiadau bob amser yn cydymffurfio â'r tueddiadau a amlinellir yn y data lefel uchel a gyflwynir yma, ac mae rhai grwpiau lleiafrifol ethnig, er enghraifft, wedi'u cynrychioli'n dda mewn rhai galwedigaethau proffesiynol ac yn perfformio'n well na'u cymheiriaid Gwyn o ran cyrhaeddiad academaidd.

Er bod rhai tueddiadau clir yn y data a gyflwynwyd, nid yw grwpiau lleiafrifol ethnig yn homogenaidd, a gofallodd y Tasglu a'i is-grwpiau i fabwysiadu dull cynnil o ystyried eu hargymhellion ar gyfer ymyraethau lleol ym maes anghydraddoldeb ethnig, tangynrychiolaeth a ffactorau anghyfrannedd eraill.

Er gwaethaf y cyfyngiadau ar ddata cyfredol, fel unrhyw faes polisi arall, drwy fabwysiadu dull yn seiliedig ar dystiolaeth bu modd i'r Tasglu Cydraddoldeb Hiliol ystyried sut y gellid mesur effaith ei argymhellion a'u gwerthuso i lywio ymagweddau polisi yn y dyfodol. Er gwaethaf y cyfyngiadau presennol ar y data perthnasol a oedd ar gael, ceisiodd y Tasglu ddefnyddio'r data a oedd ar gael i lywio ei gynigion.

Gyda'i gilydd, mae'r ffynonellau data y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn yn dal i greu darlun cyfoethog o gydraddoldeb hiliol yn y ddinas ac yn manylu ar achosion clir o anghyfrannedd o ran amddifadedd a diffyg cyfleoedd a brofir gan rai cymunedau lleiafrifol ethnig yng Nghaerdydd.

Mae'r data'n creu darlun cymhleth ar draws y ddinas, a derbynnir bod y ffactorau sy'n ysgogi'r anghydraddoldebau hyn yn amlochrog ac nad oes gan y Cyngor na gwasanaethau cyhoeddus lleol reolaeth ar yr holl ffactorau hynny. Fodd bynnag, mae'n fan cychwyn er mwyn dadansoddi a datblygu polisi, ac mae'n rhaid i'r defnydd o'r data hynny fod yn elfen ganolog wrth weithredu yn erbyn anghyfiawnder hiliol yn y dyfodol, ar raddfa'r ddinas, Cymru a'r DU.



cyfrifiad
census
2021

Golwg ar: Cyfrifiad 2021

Arolwg a gynhelir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yw'r Cyfrifiad. Fe'i cynhelir unwaith bob 10 mlynedd, ac fe gynhaliwyd y cyfrifiad swyddogol cyntaf ym 1801.

Mae'r Cyfrifiad yn ddefnyddiol gan ei fod yn darparu data cynhwysfawr a manwl iawn ar y boblogaeth, a dyna pam ein bod yn aml yn cyfeirio at ddata Cyfrifiad 2011 drwy gydol yr adroddiad hwn - gan mai dyma'r data diweddaraf sydd ar gael sy'n rhoi mewnwelediad i brofiadau a bywydau trigolion lleiafrifol ethnig yn ein dinas.

Mae'r Cyfrifiad yn bwysig oherwydd bydd yr wybodaeth fanwl a gesglir yn ddo am y boblogaeth yn cael ei defnyddio gan Lywodraethau Cymru a'r DU, Cyngorau a'r holl wasanaethau cyhoeddus dros y degawd nesaf wrth gynllunio gwasanaethau a dyrannu adnoddau. Mae'r rhain yn benderfyniadau sy'n effeithio ar fywydau pawb, o bennu targedau adeiladu tai, cytuno ar drefn ysgolion a materion ehangach yn gysylltiedig â chynllunio dinesig.


Yn ystod rhaglen y Tasglu, buom yn cefnogi ymdrechion i gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch Cyfrifiad 2021, a'i wneud yn fwy amlwg, ac i gynyddu nifer y trigolion lleiafrifol ethnig sy'n cwblhau'r arolwg pwysig hwn. Cefnogwyd y gwaith hwn gan dim lleol o staff ONS a gyflawnodd waith allgymorth i ymgysylltu â chymunedau Indiaidd, Du Affricanaidd, Tsieineaidd a Roma'r UE yn y ddinas er mwyn sicrhau eu bod wedi'u cynrychioli'n gywir yn nata Cyfrifiad y ddinas.

Pan gyhoeddir data Cyfrifiad 2021, rydym yn annog gwasanaethau cyhoeddus lleol i fyfyrion ar yr hyn y mae'r data hwn yn ei ddangos o ran cymunedau lleiafrifol ethnig ein dinas a bod dadansoddiad perthnasol a chanfyddiadau allweddol yn weladwy i'r holl staff perthnasol ac i asiantaethau partner.

DATA AR AMRYWIAETH AC ANGHYDRADDOLDEB ETHNIG


Y boblogaeth yn gyffredinol: data ar ethnigrwydd

Poblogaeth Caerdydd yn ôl Ethnigrwydd



■ Gwyn ■ Du, Asiaidd, Lleiafrifoedd Ethnig

Poblogaeth Cymru yn ôl Ethnigrwydd



■ Gwyn ■ Du, Asiaidd, Lleiafrifoedd Ethnig


Gan ddefnyddio ystadegau o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, amcangyfrifir, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mehefin 2021, fod 76,700 o drigolion Caerdydd o grwpiau lleiafrifol ethnig: 15.6% o'r boblogaeth gyfan.

Mewn cymhariaeth, yng Nghymru gyfan ceir cyfanswm o 153,500 o unigolion o grwpiau lleiafrifol ethnig: 4.9% o'r boblogaeth gyfan. Mae hyn yn awgrymu bod hanner dinasyddion lleiafrifol ethnig Cymru yn byw yn y brifddinas.

FFYNHONNELL: Stats Cymru, Ethnigrwydd yn ôl Ardal a Grŵp Ethnig, Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Mehefin 2021, <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/Ethnicity/ethnicity-by-area-ethnicgroup>


Poblogaeth ysgolion: data ar ethnigrwydd

Poblogaeth Ysgolion Caerdydd yn ôl Ethnigrwydd



■ Gwyn ■ Du, Asiaidd, Lleiafrifoedd Ethnig

Poblogaeth Ysgolion Cymru yn ôl Ethnigrwydd




■ Gwyn ■ Du, Asiaidd, Lleiafrifoedd Ethnig

Mae data o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion ar gyfer 2020/21 yn dangos bod 15,520 o ddisgyblion 5 oed neu hŷn yng Nghaerdydd yn dod o grwpiau lleiafrifol ethnig: 35.2% o gyfanswm y boblogaeth ysgolion, o gymharu ag 12.1% ar gyfer Cymru gyfan.

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion 2020/21, www.statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census

Poblogaeth Caerdydd: Data ar grwpiau ethnig

Daw'r data mwyaf dibynadwy ar faint poblogaeth pob grŵp ethnig ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn o Gyfrifiad 2011, sydd bellach wedi dyddio. Fodd bynnag, mae'r data hyn yn rhoi rhywfaint o fewnwelediad i broffil ethnigrwydd y ddinas, ac fe'i cynhwysir yma i roi mewnwelediad i feintiau cymharol gwahanol grwpiau ethnig yn y ddinas a'r amrywiaeth sydd wedi'i chynnwys o dan y term 'lleiafrifol ethnig' a ddefnyddir gennym drwy'r holl adroddiad hwn.



■ Gwyn ■ Asiaidd ■ Arabaidd ■ Cymysg-arall
 ■ Lleiafrifol Ethnig ■ Du ■ Cymysg - Gwyn a Du Affricanaidd/Caribiaidd ■ Grwpiau ethnig eraill

Poblogaeth yn ôl Gwlad Enedigol a Chenedligrwydd: Cymhariaeth o Gaerdydd, Cymru a'r DU

Poblogaeth yn ôl Gwlad Enedigol:

	Amcangyfrif o'r Boblogaeth	Wedi'i (g)eni yn y DU		Heb ei (g)eni yn y DU	
		Amcangyfrif	%	Amcangyfrif	%
Y DU	66,329,000	56,689,000	85.5	9,614,000	14.5
Cymru	3,120,000	2,932,000	94.0	188,000	6.0
Caerdydd	373,000	322,000	86.3	51,000	13.7

Poblogaeth yn ôl Cenedligrwydd:

	Amcangyfrif o'r Boblogaeth	Prydeinig		Heb fod yn Brydeinig	
		Amcangyfrif	%	Estimate	%
Y DU	66,329,000	60,287,000	90.9	6,013,000	9.1
Cymru	3,120,000	2,994,000	96.0	126,000	4.0
Caerdydd	373,000	336,000	90.1	37,000	9.9

Ffynhonnell: Amcangyfrifon o'r Boblogaeth yn ôl Gwlad Enedigol (Y DU/Y tu allan i'r DU) ar gyfer y cyfnod Gorffennaf 2020 - Mehefin 2021, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Ethnigrwydd a Rhyw: Crynodeb o brif ystadegau'r DU ar gyfer statws economaidd-gymdeithasol

- Ym mhob grŵp ethnig, roedd canran uwch o ddynion na merched mewn 'galwedigaethau rheoli a phroffesiynol uwch' (y grŵp economaidd-gymdeithasol uchaf); roedd y gwahaniaeth mwyaf yn y grŵp Indiaidd, lle roedd 27% o ddynion ac 13% o fenywod mewn galwedigaethau o'r fath
- Ym mron pob grŵp ethnig, roedd canran uwch o ferched na dynion yn y grŵp economaidd-gymdeithasol 'erioed wedi gweithio neu'n ddi-waith ers cyfnod hir'; roedd y gwahaniaeth mwyaf yn y grŵpiau ethnig Pacistanaidd a Bangladeshaidd, lle roedd menywod bron ddwywaith yn fwy tebygol na dynion o fod yn y grŵp economaidd-gymdeithasol hwnnw
- Cafodd 60% o ferched a 40% o ddynion o'r grŵp ethnig Arabaidd, a 51% o'r grŵp Bangladeshaidd, eu cynnwys yn y grŵp 'erioed wedi gweithio neu'n ddi-waith ers cyfnod hir', sef y canrannau uchaf ar gyfer merched o bob grŵp ethnig.
- Dynion o'r grŵp ethnig Pacistanaidd oedd fwyaf tebygol o fod yn 'gyflogwyr bach ac yn weithwyr ar eu liwt eu hunain' (sef 19%), a dynion Gwyn Cymysg a Du Caribiaidd oedd yn lleiaf tebygol o fod yn y categori hwnnw (sef 5%).

Ffynhonnell: Llywodraeth y DU, Ethnicity Facts and Figures Portal, Work, Pay & Benefits, <https://www.ethnicity-facts-figures.service.gov.uk/work-pay-and-benefits>




Anghydraddoldeb cyffredinol: Data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru


Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yw dull swyddogol Llywodraeth Cymru o fesur amddifadedd cymharol mewn ardaloedd bychain yng Nghymru. Mae'n nodi ardaloedd sydd â'r crynodiadau uchaf o sawl math gwahanol o amddifadedd. Mae MALIC yn rhoi ardaloedd bychain yng Nghymru yn eu trefn o 1 (y mwyaf amddifadus) hyd at 1,909 (y lleiaf amddifadus).

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn creu darlun cymhleth yn y ddinas. Fodd bynnag, o ran amddifadedd cyffredinol, mae 34.8% o boblogaeth Ddu/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Prydeinig Caerdydd yn byw yn 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig y ddinas, sydd ddwywaith yn fwy na chyfradd y grŵp ethnig Gwyn.


Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019: Gaerdydd - Graddfeydd Cyffredinol



Canran y Boblogaeth Gyfan sy'n Perthyn i Grŵp Ethnig BAME fesul Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is, Cyfrifiad 2011



Tasglu Cydraddoldeb Hiliol: Blaenoriaethau ar gyfer newid



Ym mhenodau dilynol yr adroddiad hwn, rhoddir crynodeb o dystiolaeth ynghylch ethnigrwydd o dan bob thema, amlinelliad o fyfyrnodau cyffredinol Tasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd ar gyfer gwaith lleol yn y dyfodol o fewn y maes thematig ac argymhellion penodol fesul eitem a ddatblygwyd gan y Tasglu i gefnogi cynlluniau gweithredu a chyflawni yn y dyfodol.



THEMA 1: CYFLOGAETH A GWEITHLU CYNRYCHIOLIADOL

Mewnwelediadau Data ar gyfer Cyflogaeth a Gweithlu Cynrychioliadol

SYLWER: Rydym wedi defnyddio'r data mwyaf diweddar ar raddfa'r DU gyfan yn bennaf, a hynny oherwydd cyfyngiadau o fewn setiau data lleol, fel meintiau sampl bach, a chan fod data Cyfrifiad 2011 bellach dros 10 mlwydd oed.


Mae data Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth 2019 yn awgrymu bod y gyfradd ddiweithdra ar gyfer Grwpiau Gwyn a Lleiafrifoedd Ethnig yr un peth yng Nghymru, sef 4%, ond dylid trin y ffigur hwn yn ofalus yng ngoleuni ystadegau eraill ar raddfa'r DU lle mae'r meintiau sampl yn fwy.

Diweithdra

Yn y deuddeg mis hyd at fis Mehefin 2021, roedd cyfradd ddiweithdra'r DU ar ei uchaf ymhlith pobl o gefndir ethnig Du (12%), ac ar ei hisaf ymhlith pobl o gefndir ethnig Gwyn (4%) neu Indiaidd (5%).

Y GYFRADD DDIWEITHDRA YN ÔL GEFNDIR ETHNIG: DU, 2008-21

Pobl 16+ oed, heb ei addasu'n dymhorol



Mae'r duedd hon hyd yn oed yn fwy amlwg ymhlith pobl ifanc, gyda phobl ifanc Ddu yn profi cyfraddau diweithdra 3 gwaith yn uwch na'u cyfoedion Gwyn.

Diweithdra yn ôl oedran a chefnidir ethnig

Gorffennaf 2020-Mehefin 2021, Miloedd

	16-24		25-49		50+		Total (16+)	
	Lefel	Cyfradd(%)	Lefel	Cyfradd(%)	Lefel	Cyfradd(%)	Lefel	Cyfradd(%)
Gwyn	440	13%	500	3%	330	3%	1,270	4%
Du	40	36%	60	9%	30	8%	130	12%
Bangladeshaid/Pacistaidd	20	22%	30	7%	<10	10%	60	10%
Indiaidd	<10	18%	30	5%	<10	4%	50	5%
Cefndiroedd ethnig eraill	60	26%	70	6%	20	7%	150	9%
<i>Cefndir ethnig lleiafrifol</i>	130	26.4%	200	6.6%	70	7.1%	400	9.0%
Cyfanswm	580	14.6%	700	3.7%	400	3.7%	1,670	5.7%

Ffynhonnell: Microdata o Arolwg Blynyddol yr ONS o'r Boblogaeth

Nodiadau: Mae'r holl ffigurau wedi'u talgrynnu i'r 10,000 agosaf felly mae'n bosibl na fyddant yn creu'r cyfanswm oherwydd hynny. Amcangyfrifon yn seiliedig ar ymatebion yr arolwg felly'n amodol ar wall samplu.

Mae 'cefnidiroedd ethnig eraill' yn cynnwys pobl o gefndiroedd Tsieinaidd, Asiaidd arall, cymysg/lluosog neu gefndiroedd ethnig eraill.



Mae'r gyfradd ddiweithdra yn is ymhlith dynion o gefndir ethnig lleiafrifol (8.3%) nag ar gyfer merched (9.8%), ond mae hyn yn amrywio ar draws gwahanol grwpiau lleiafrifol ethnig.

Diweithdra yn ôl cefndir ethnig a rhyw: Y DU

Gorffennaf 2020-Mehefin 2021, Miloedd

	Dynion		Merched		Cyfanswm	
	Lefel	Cyfradd(%)	Level	Cyfradd(%)	Level	Cyfradd(%)
Gwyn	740	4.8%	530	3.9%	1,270	4%
Du	50	10.4%	80	13.1%	130	12%
Bangladeshaid/Pacistaidd	30	8.1%	30	12.4%	60	10%
Indiaidd	20	4.4%	30	6.6%	50	5%
Cefndiroedd ethnig eraill	90	9.7%	70	8.2%	150	9%
<i>Cefndir ethnig lleiafrifol</i>	190	8.3%	210	9.8%	400	9%
Cyfanswm	930	5.3%	740	4.6%	1,670	5%

Ffynhonnell: Microdata o Arolwg Blynyddol yr ONS o'r Boblogaeth

Nodiadau: Mae'r holl ffigurau wedi'u talgrynnu i'r 10,000 agosaf felly mae'n bosibl na fyddant yn creu'r cyfanswm oherwydd hynny. Amcangyfrifon yn seiliedig ar ymatebion yr arolwg felly'n amodol ar wall samplu.

Mae 'cefnidiroedd ethnig eraill' yn cynnwys pobl o gefndiroedd Tsieinaidd, Asiaidd arall, cymysg/lluosog neu gefndiroedd ethnig eraill.

Effaith Covid-19 ar y farchnad lafur

Mae'r gwaith dadansoddi a gynhyrchwyd hyd yma yn awgrymu bod gweithwyr o gefndir lleiafrifol ethnig ymhlith y grwpiau a ddiroddodd y mwyaf o effeithiau economaidd negyddol yn sgil pandemig y Coronafeirws.

Mae ymchwil wedi awgrymu bod unigolion o gefndiroedd lleiafrifol ethnig yn fwy tebygol o weithio mewn galwedigaethau lle ceir risg uwch o ddod i gysylltiad â Covid-19, ac mae 15% o weithwyr yn y sectorau yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan y pandemig yn dod o grŵp lleiafrifol ethnig, o gymharu â 12% o'r holl weithwyr.¹


¹PHE, Beyond the data: Understanding the impact of COVID-19 on BAME groups, 16 Mehefin 2020, t5 Dadansoddiad llyfrgell o'r Arolwg o'r Llafurlu, Ch4 2019, gan ddefnyddio ddiffiniad y Sefydliad Astudiaethau Cyllid o sectorau agored i niwed.

Mae'r Data diweddaraf sydd ar gael o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn dangos y tueddiadau canlynol ar raddfa'r DU:

Cyflogaeth yn ôl Galwedigaeth

	Y grŵp ethnig Pacistanaidd a Bangladeshaidd gyda'i gilydd oedd â'r ganran isaf o weithwyr mewn swyddi 'proffesiynol' (18.8%)
	Roedd 10.3% o'r holl weithwyr mewn swyddi 'elfennol', sef galwedigaethau a gysylltir ag amgylchiadau economaidd-gymdeithasol lefel is, ac roedd canran y gweithwyr mewn swyddi 'elfennol' ar ei uchaf ymhlith grwpiau ethnig Du (15.6%) a Gwyn Arall (14.8%)
	Roedd 38.1% o weithwyr o'r grŵp ethnig Pacistanaidd a Bangladeshaidd cyfun yn y 3 grŵp galwedigaeth â'r amgylchiadau economaidd-gymdeithasol isaf, ond mae hyn yn ostyngiad o gymharu â 44.5% yn 2009
	Roedd 17.1% o weithwyr Du mewn swyddi 'gofalu, hamdden neu wasanaethau eraill', sef y ganran uchaf o blith yr holl grwpiau ethnig.
	Roedd canran y gweithwyr mewn swyddi 'rheolwr, cyfarwyddwr neu uwch swyddog' – y mathau o alwedigaethau a gysylltir ag amgylchiadau economaidd-gymdeithasol uwch – ar ei uchaf yn y grwpiau ethnig Indiaidd (12.2%) a Gwyn Prydeinig (11.7%), ac ar ei hisaf yn y grwpiau ethnig Du (5.4%) ²

Bwlch Cyflogau Ethnigrwydd y DU

	Yn 2019, gweithwyr o'r grŵp ethnig Indiaidd oedd â'r tâl fesul awr cyfartalog uchaf o'r holl grwpiau ethnig (£14.43) a gweithwyr o'r grŵp ethnig Pacistanaidd a Bangladeshaidd cyfun oedd â'r tâl isaf (£10.55)
	<ul style="list-style-type: none"> Gweithwyr o'r grŵp ethnig Indiaidd oedd â'r tâl fesul awr uchaf bob blwyddyn rhwng 2013 a 2019 Gweithwyr o'r grŵp ethnig Pacistanaidd a Bangladeshaidd cyfun oedd â'r tâl fesul awr isaf bob blwyddyn Y tâl cyfartalog fesul awr i weithwyr Gwyn oedd £12.21

² Employment by occupation - GOV.UK Ethnicity facts and figures (ethnicity-facts-figures.service.gov.uk)

Data ethnigrwydd gweithlu'r Cyngor a'r bwlch cyflog

Mae'r tabl isod yn dangos mai staff lleiafrifol ethnig sydd i gyfrif am 10.26% o'r gweithlu yng Nghyngor Caerdydd ar hyn o bryd. Mae hyn yn gynydd o gymharu â 9.87% yn 2020.

O blith staff sydd wedi datgelu eu hethnigrwydd, bu cynnydd o 4.79% mewn gweithwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig yng ngweithlu Cyngor Caerdydd yn 2021 o gymharu â 2020, mae bwlch yn y data yn parhau gyda bron i 1,000 o staff heb ddatgelu eu hethnigrwydd, gan fod adrodd hynny'n parhau i fod yn ddewisol iddynt.

Grŵp Ethnig	Gweithwyr		% Cyfrifiad 2011	
	%	Nifer	Caerdydd	Cymru
Asiaidd	2.86%	356	8.00%	2.20%
Du	1.98%	247	2.40%	0.60%
Tsieinaidd/Y Dwyrain Pell	0.36%	45	1.20%	0.40%
Ethnigrwydd Cymysg	2.01%	250	2.90%	1.00%
Arall	0.35%	43	2.00%	0.50%
Sipsiwn/Teithiwr Gwyn	0.01%	1	0.20%	0.10%
Gwyn Gwyddelig	0.53%	66	0.70%	0.50%
Gwyn Arall	0.71%	88	3.50%	1.80%
Gwyn Ewropeaidd	1.46%	182		
Gwyn Prydeinig *	89.74%	11175	80.00%	93.20%



Ethnigrwydd gweithlu'r Cyngor yn ôl gradd

Mae'r tabl isod yn dangos graddau gweithwyr parhaol/dros dro y Cyngor yn ôl grŵp ethnig (bron yr holl weithwyr ac eithrio athrawon a'r rhai mewn lleoliadau ysgol nad ydynt yn rhan o gydgytundeb y Cyngor). Mae'r graddau yn unol â chynllun Gwerthuso Swyddi y Cyngor. Gradd 1 yw'r radd sydd â'r cyflog isaf, a'r grŵp OM+ sydd â'r cyflog uchaf (yn cynnwys Rheolwyr Gweithredol, Cyfarwyddwyr a Chyfarwyddwyr Cynorthwyol).

GRADD																		
Grŵp Hil	GRADD 01	GRADD 02	GRADD 03	GRADD 04	GRADD 05	GRADD 06	GRADD 07	GRADD 08	GRADD 09	GRADD 10	RhG+	JNC IEUENCTID A'R GYMUNED	SOULBURY	ARALL	GRADDFA ARWEINYDDIAETH YSGOLION	GRADDFA GYFLOG UCHAF ATHRAWON	PRIF RADDFA GYFLOG ATHRAWON	ATHRO HEB GYMHWYSO
Asiadd	29	81	73	49	32	27	13	7	2	3	4	4	1	0	0	17	13	1
Du	34	22	45	36	28	20	19	10	3	3	0	10	1	0	0	10	4	2
Tsieineidd/Y Dwyrain Pell	2	10	7	9	6	2	4	3	1	0	0	0	0	0	0	0	0	1
Ethnigrwydd Cymysg	19	11	40	44	43	31	25	8	2	2	1	5	2	0	0	11	6	0
Arall	4	4	12	5	5	1	2	1	0	0	0	1	0	0	0	6	2	0
Gwyn Prydeinig	338	559	1395	1604	1660	996	669	426	168	163	98	100	36	34	336	1822	750	21
Gwyn Ewropeaidd	20	12	41	28	25	16	5	4	2	0	0	2	1	1	1	11	13	0
Sipsiwn/Teithiwr Gwyn	0	0	1	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Gwyn Gwyddelig	0	1	8	7	6	4	4	4	3	0	1	2	1	1	5	12	7	0
Gwyn Arall	5	8	11	7	15	10	7	5	1	1	2	1	1	0	0	9	4	1
Cyfanswm	451	708	1633	1789	1820	1107	748	468	182	172	106	125	43	36	342	1898	799	26

GRADD																		
Grŵp Hil	GRADD 01	GRADD 02	GRADD 03	GRADD 04	GRADD 05	GRADD 06	GRADD 07	GRADD 08	GRADD 09	GRADD 10	RhG+	JNC IEUENCTID A'R GYMUNED	SOULBURY	ARALL	GRADDFA ARWEINYDDIAETH YSGOLION	GRADDFA GYFLOG UCHAF ATHRAWON	PRIF RADDFA GYFLOG ATHRAWON	ATHRO HEB GYMHWYSO
Asiadd	6.43%	11.44%	4.47%	2.74%	1.76%	2.44%	1.74%	1.50%	1.10%	1.74%	3.77%	3.20%	2.33%	0.00%	0.00%	0.90%	1.63%	3.85%
Du	7.54%	3.11%	2.76%	2.01%	1.54%	1.81%	2.54%	2.14%	1.65%	1.74%	0.00%	8.00%	2.33%	0.00%	0.00%	0.53%	0.50%	7.69%
Tsieineidd/Y Dwyrain Pell	0.44%	1.41%	0.43%	0.50%	0.33%	0.18%	0.53%	0.64%	0.55%	0.00%	0.00%	0.00%	0.00%	0.00%	0.00%	0.00%	0.00%	3.85%
Ethnigrwydd Cymysg	4.21%	1.55%	2.45%	2.46%	2.36%	2.80%	3.34%	1.71%	1.10%	1.16%	0.94%	4.00%	4.65%	0.00%	0.00%	0.58%	0.75%	0.00%
Arall	0.89%	0.56%	0.73%	0.28%	0.27%	0.09%	0.27%	0.21%	0.00%	0.00%	0.00%	0.80%	0.00%	0.00%	0.00%	0.32%	0.25%	0.00%
Gwyn Prydeinig	74.94%	78.95%	85.43%	89.66%	91.21%	89.97%	89.44%	91.03%	92.31%	94.77%	92.45%	80.00%	83.72%	94.44%	98.25%	96.00%	93.87%	80.77%
Gwyn Ewropeaidd	4.43%	1.69%	2.51%	1.57%	1.37%	1.45%	0.67%	0.85%	1.10%	0.00%	0.00%	1.60%	2.33%	2.78%	0.29%	0.58%	1.63%	0.00%
Sipsiwn/Teithiwr Gwyn	0.00%	0.00%	0.06%	0.00%	0.00%	0.00%	0.00%	0.00%	0.00%	0.00%	0.00%	0.00%	0.00%	0.00%	0.00%	0.00%	0.00%	0.00%
Gwyn Gwyddelig	0.00%	0.14%	0.49%	0.39%	0.33%	0.36%	0.53%	0.85%	1.65%	0.00%	0.94%	1.60%	2.33%	2.78%	1.46%	0.63%	0.88%	0.00%
Gwyn Arall	1.11%	1.13%	0.67%	0.39%	0.82%	0.90%	0.94%	1.07%	0.55%	0.58%	1.89%	0.80%	2.33%	0.00%	0.00%	0.47%	0.50%	3.85%

Gweledigaeth ar gyfer gweithlu'r ddinas yn y dyfodol

Er gwaethaf gwelliannau sylweddol yng nghyrhaeddiad addysgol rhai grwpiau lleiafrifol ethnig ar raddfa'r DU, yn enwedig ymhlith myfyrwyr Du Affricanaidd a Bangladeshaidd, dengys y data na chafwyd cynnydd parhaus yn y farchnad lafur i gyd-fynd â hyn. Mae'r ffaith nad yw gwelliant mewn cyrhaeddiad addysgol wedi trosi'n ganlyniadau gwell yn y farchnad lafur yn awgrymu mai canolbwynt yr her yw'r pontio o fyd addysg i waith. Er bod rhan helaeth o'r polisi ar gyfer anghydraddoldebau yn y farchnad lafur wedi canolbwyntio ar opsiynau ar gyfer Llywodraeth Cymru a'r DU, ceir achos cryf hefyd dros wneud mwy ar raddfa leol.

O gymharu ag ymdrechion cenedlaethol, ceir tair mantais allweddol yn gysylltiedig ag ymdrechion lleol i helpu lleiafrifoedd ethnig i bontio o fyd addysg i waith ac wrth ymdrin â thangynrychiolaeth yn y farchnad lafur. Maent yn fwy atebol, wedi'u llywio'n well gan ddemograffeg lleol, ac yn fwy sensitif i gyflogwyr lleol.

Mae argymhellion y Tasglu ar gyfer Cyflogaeth a Gweithlu Cynrychioliadol yn cynnwys tair ymagwedd gyffredinol:

- **Annog cyflogwyr yn y ddinas i recriwtio gweithlu mwy amrywiol, gan gynnwys arwain gwaith i gynyddu amrywiaeth o fewn gweithlu'r Cyngor ei hun (ochr y galw)**



- **Gweithio gyda chyflogwyr a thrigolion lleiafrifol ethnig i frocera cyfleoedd cyflogaeth (cydgysylltu)**



- **Rhoi cymorth wedi'i gynllunio'n arbennig i staff, trigolion a phobl ifanc lleiafrifol ethnig (yr ochr gyflenwi)**



Ar draws pob un o'r tri maes, mae'r awdurdod lleol yn cyflawni rôl ddeuol, fel cynullydd gweithgarwch y farchnad lafur leol a gweithgarwch creu swyddi, ac fel cyflogwr o bwys yn y ddinas a all osod safonau uchel iddo'i hun fel sefydliad canolog ac arwain drwy esiampl drwy weithredoedd bwriadol.

Mae'r Tasglu'n cefnogi ymgorffori targedau penodol i leiafrifoedd ethnig mewn ymdrechion prif ffrwd i fynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc a hybu adfywiad economaidd yn y ddinas, gan gydnabod y gwaith a gyflawnwyd hyd yma ar lefel y ddinas sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol

ac adeiladu economi decach i'r ddinas, gan gynnwys Rhaglen Addewid Caerdydd a chyflwyno cynlluniau prentisiaeth fel Kickstart.

Er bod cynlluniau o'r fath wedi sicrhau canlyniadau amlwg o ran ehangu cyfleoedd i grwpiau economaidd-gymdeithasol ddifreintiedig yn y ddinas, bydd ffocws o'r newydd ar ddata ethnigrwydd y buddiolwyr o gymorth i sicrhau bod y rhaglenni mawr hyn yn cyrraedd grwpiau lleiafrifol ethnig sydd wedi'u tangynrychioli ar hyn o bryd yn y farchnad lafur, ac yn llywio gweithgarwch pellach wedi'i dargedu.

Gall awdurdodau lleol yn arbennig chwarae rhan bwysig, oherwydd gallant weithredu fel cydgysylltwyr, gan gyfuno'r gwaith sy'n cael ei wneud gan sefydliadau allweddol yn yr economi a'r gymuned leol, gan gynnwys Gwasanaethau Pontio i Waith, Datblygu Economaidd, Y Ganolfan Byd Gwaith, busnesau lleol, grwpiau cymunedol, ac ysgolion a phrifysgolion.

Mae Cyngor Caerdydd felly mewn sefyllfa gref i fabwysiadu dull mwy beiddgar o fynd i'r afael ag anfantais ethnig leol ym marchnad lafur y ddinas, ac mae'r Tasglu yn annog gosod nodau uchelgeisiol i sicrhau bod lefelau cyflogaeth yn adlewyrchu cyfansoddiad ethnig yr ardal leol. Gyda'r heriau'n gysylltiedig â diweithdra ar y naill law a gor-gymhwystara ar y llaw arall, mae angen gweithgarwch i gefnogi mynediad i'r farchnad lafur a dilyniant oddi mewn i'r farchnad honno.



Bydd gweithredu yn y maes hwn yn cyfrannu at gyflenwi a chyflawni'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn lleol, a gychwynwyd yng Nghymru yn 2021. Mae'r Ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus ddangos bod ganddynt bolisiau o'r dyluniad gorau i sicrhau cydraddoldeb a lefel uwch o hawliau economaidd a chymdeithasol i bawb, yn enwedig i'r grwpiau mwyaf difreintiedig. Mae a wnelo hyn nid yn unig â chydraddoldeb a hawliau dynol, ond hefyd â thryloywder, gan hyrwyddo cymdeithas a gwasanaethau cyhoeddus agored, a llunio polisiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Gyda'i gilydd, mae argymhellion y Tasglu ar draws y thema hon yn gyfystyr â glasbrint wedi'i theilwra'n lleol er mwyn rhoi'r flaenoriaeth i gamau a fydd yn ymdrin ag anghydraddoldebau ethnig yn y farchnad

llafur. Maent yn alinio hyn â chynlluniau datblygu economaidd a rhaglenni gwaith sefydledig lleol y Cyngor i leihau diweithdra ac anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol yn y ddinas.

Mae ein hargymhellion yn cynnwys defnyddio rhaglenni cyswllt presennol fel gwasanaeth I Mewn i Waith ac asiantaeth Caerdydd ar Waith i gefnogi mynediad i'r farchnad lafur, gan sicrhau bod y Cyngor yn ei rôl froceru yn canolbwyntio ar ddatblygiad economaidd lleol i greu mwy o gyfleoedd yn y farchnad lafur i grwpiau ethnig tangynrychioledig. Yn ogystal â hyn, dylid defnyddio mesurau caffael a datblygu a buddsoddi dinesig fel mecanwaith i ymwreiddio targedau uchelgeisiol ar gyfer y farchnad lafur ym mhob rhaglen waith graddfa fawr o hyn allan.

CYFLOGAETH A GWEITHLU CYNRYCHIOLIADOL: EIN HARGYMHELLION

Annog cyflogwyr yn y ddinas i recriwtio gweithlu mwy amrywiol, gan gynnwys arwain gwaith i gynyddu amrywiaeth o fewn gweithlu'r Cyngor ei hun.

Mae ein hargymhellion yn y maes hwn yn cynnwys argymhellion â ffocws mewnol ac argymhellion partneriaeth i gefnogi darparu mwy o gyfleoedd yn y farchnad lafur i drigolion lleiafrifol ethnig Caerdydd. Mae'r achos moesol dros wneud hynny'n glir, ond ceir achos economaidd clir hefyd i'r Cyngor a'i bartneriaid fabwysiadu'r dulliau hyn yn rhan o strategaeth ehangach i gefnogi twf, hybu cynhyrchiant a chynyddu cyfraddau cadw graddedigion yn y ddinas.

Mae'r Cyngor eisoes wedi mabwysiadu ymagweddau sefydliadol sy'n arddangos arfer da er mwyn gwella amrywiaeth ethnig o fewn ei weithlu. Drwy gyhoeddi data am ei weithlu ei hun a'r bwlch cyflog ethnigrwydd, mae'r Cyngor wedi arddangos tryloywder ac atebolrwydd dros ddarpariaeth yn y dyfodol. I gefnogi hyn mae diwygiad cynhwysfawr hefyd wedi'i gynnal o

arferion recriwtio er mwyn lleihau effaith rhagfarn ddiarwybod hyd yr eithaf wrth lunio rhestrau byr. Ceir hefyd bocedi gweladwy o weithgarwch recriwtio targededig gan rai gwasanaethau.

Wrth edrych i'r dyfodol, dylai'r Cyngor geisio datblygu fframwaith sefydliadol a phartneriaeth mwy cynhwysfawr i gefnogi camau gan gyflogwyr yng nghyswllt tangynrychiolaeth ar raddfa'r ddinas. Bydd hyn yn cynyddu ymdrechion ar y cyd ac yn trawsnewid y dull tameidiog presennol a fabwysiedir gan asiantaethau unigol yn gyfnod mwy dylanwadol lle cyflawnir newid o ran anghydraddoldebau ethnig. O'u dylunio mewn partneriaeth â darparwyr addysg a hyfforddiant, gallai'r ymdrechion hyn hefyd gynnig datrysiadau y mae taer angen amdanynt i heriau gweithlu'r sectorau cyhoeddus mewn meysydd fel gofal cymdeithasol, addysgu a nyrsio.



1.1

ARGYMHELLIAD:



Datblygu rhwydwaith dinas gyfan ar gyfer cyflogwyr i annog arfer da a chydweithio ar gamau cyflogaeth er mwyn gwella cynrychiolaeth a dilyniant lleiafrifoedd ethnig yn y farchnad lafur leol

MANYLU:

Ledled Caerdydd, clywodd y Tasglu am lawer o gyflogwyr sy'n ceisio gwella amrywiaeth y gweithlu ac am arferion sydd wedi'u sefydlu ac sy'n dod i'r amlwg i ddenu staff lleiafrifol ethnig i sefydliadau, a'u cadw yno.

Er bod parodrwydd eang ar draws y prif gyflogwyr i sicrhau gweithlu cynrychioliadol o safbwynt ethnig, ceir cyfle clir i gryfhau'r cydgysylltu a'r cydweithio lleol ar fnyediad trigolion lleiafrifol ethnig y ddinas i'r farchnad lafur, a'u dilyniant oddi mewn i'r farchnad honno.

Bydd creu fforwm dinesig neu fecanwaith priodol ar gyfer cydweithio, er mwyn sicrhau cyflawniad a pherchnogaeth leol ar faterion cydraddoldeb o gymorth i sicrhau mwy o weithredu ar anghydraddoldebau o fewn y farchnad lafur, yn hyrwyddo atebolrwydd ac yn ymestyn cyrhaeddiad cynlluniau cyflogaeth effeithiol sy'n bodoli eisoes ar draws y ddinas, gan gynnwys prentisiaethau a rhaglenni i raddedigion.

Gellid sefydlu'r rhwydwaith hwn o weithredwyr ar ffurf siarter neu addewid dinesig, i gynyddu amlygrwydd ac ymwybyddiaeth o'r camau sy'n digwydd ar y cyd i wella cydraddoldeb ar raddfa'r ddinas. Byddai hyn yn dilyn model arfer da y bu'r Tasglu yn ei arsylwi yng Nghyngor Dinas Bryste, drwy Siarter a Rhwydwaith Cydraddoldeb Bryste.

Mae potensial i'r ymagwedd hon fod yn arbennig o effeithiol os rhoddir data a mewnwelediadau perthnasol i gynrychiolaeth y farchnad lafur i gyflogwyr, er mwyn iddynt dargeddu eu hymagweddau recriwtio a chadw drwy rwydwaith cydweithredol a chefnogol lleol.

Mae sefydliadau lleol ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol wedi'u hangori yn realiti marchnad lafur Caerdydd, ac mae eu gwybodaeth yn adnodd gwerthfawr er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn y farchnad lafur.

Byddai fforwm ar gyfer cydweithio o gymorth i gydgysylltu ymagwedd gyffredin er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ethnig mewn cyflogaeth yn y ddinas, gan sicrhau mwy o effaith gronns na phe bai pob sefydliad yn gweithredu ar ei ben ei hun.

Gallai rhwydwaith i'r ddinas gyfan hefyd fod o gymorth i gydgysylltu a chyflenwi hyfforddiant perthnasol sy'n canolbwyntio ar gyflogwyr, i gyfnewid arfer gorau, ac er mwyn i sefydliadau addysgol a chyflogwyr y ddinas gydweithio i gefnogi pontio o fyd addysg i waith.

1.2

ARGYMHELLIAD:



Llofnodi Compact Swyddi Cymunedol Caerdydd

MANYLU:

Mae Compact Swyddi Cymunedol Caerdydd yn fenter arobryn sy'n annog busnesau yng Nghaerdydd i gynnig mwy o gyfleoedd cyflogaeth i bobl leol.

Sefydlwyd y Compact Swyddi Cymunedol yn 2017 gan grŵp gweithredu cymunedol yn Butetown a gefnogir gan Citizens Cymru. Cyflwynwyd y Compact mewn ymateb i ganfyddiadau bod llawer o drigolion, yn enwedig y rheini â sgiliau da neu radd, yn ei chael hi'n anodd cael swydd yn lleol, yn enwedig swydd a oedd yn gymesur â'u cyrhaeddiad addysgol.

Mae'r Tasglu'n cefnogi'r fenter hon oherwydd ei bod yn ymateb i ddau gategori her a wynebwr gan drigolion lleiafrifol ethnig, ac yn enwedig pobl ifanc o leiafrifoedd ethnig yn y ddinas: diweithdra a thangyflogaeth. Mae'r naill yn her neilltuol i bobl ifanc lleiafrifol ethnig sy'n gadael yr ysgol â lefelau isel o addysg; mae'r llall yn her neilltuol i weithwyr lleiafrifol ethnig â lefelau uwch o addysg.

Caiff cyflogwyr sy'n ymuno â'r cynllun eu cefnogi gan Citizens Cymru sydd, yn rhan o'r Compact, yn hyrwyddo cyfleoedd am swyddi yn y gymuned leol ac yn rhoi hyfforddiant cyfweiliad a chymorth i bobl leol ymgeisio.

Mae'r Compact Swyddi yn cynnwys y gofynion isod gan gyflogwyr. Mae Cyngor Caerdydd wedi mabwysiadu pob un o'r rhain eisoes fel polisi sefydliadol ond nid yw pob agwedd wedi derbyn cyhoeddusrwydd eang.

Mae llofnodi'r Compact Swyddi fel sefydliad sy'n creu lleoedd ac un o brif gyflogwyr y ddinas yn cyfleu neges glir ynghylch ymrwymiad y Cyngor i weithredu, ac yn annog cyflogwyr eraill y ddinas i fabwysiadu'r safonau hyn, gan greu effaith gronnu:

- Derbyn achrediad fel cyflogwr 'Cyflog Byw i Gymru';
- Talu o leiaf £9.90 yr awr i bob aelod o staff a chontractwr;
- Recriwtio drwy ddefnyddio CVs heb enw na chyfeiriad arnynt ac/neu addo cyfweiliad i drigolion lleol sy'n bodloni'r meini prawf;
- Darparu hyfforddiant ar ragfarn ddjarwybod i gyfweiliadwyr;
- Sicrhau bod gan bob aelod o staff hawl i gael contract sy'n cynnwys isafswm oriau a;
- Dangos cyfleoedd am dwf a datblygiad.

1.3

ARGYMHELLIAD:



Defnyddio pwerau cynllunio a chomisiynu i'w gwneud yn ofynnol i gyflogwyr recriwtio prentisiaid o grwpiau difreintiedig a chynyddu tryloywder ynghylch amrywiaeth eu gweithluoedd

MANYLU:

Bydd awdurdodau cyhoeddus yn aml yn dewis gweithio mewn partneriaethau cytundebol â'r sectorau preifat a gwirfoddol i ddarparu ystod eang o wasanaethau, seilwaith a nwyddau. Yn yr achosion hyn, gall caffael effeithiol helpu i wella ansawdd gwasanaethau, gan gynnwys bodloni anghenion amrywiol gwahanol grwpiau ethnig yn well.

Yn ogystal â gwella ansawdd gwasanaethau, gall awdurdodau cyhoeddus ddefnyddio pŵer prynu'r sectorau cyhoeddus i hyrwyddo cydraddoldeb a, lle bo'n briodol, sicrhau buddion cymdeithasol ehangach, fel creu cyfleoedd hyfforddi neu gyflogaeth i bobl leol.

Gall bargeinion datblygu economaidd, adeiladu tai ac adfywio graddfa fawr gynnig fframwaith cadarn i gymhell a'i gwneud yn ofynnol i gontractwyr greu swyddi lleol, gan roi'r flaenoriaeth i gymunedau sydd â'r lefelau uchaf o ddiweithdra ac anfantais economaidd-gymdeithasol. Gall hyn fod yn fecanwaith effeithiol er mwyn cyflawni nodau cydraddoldeb hiliol, yn enwedig os ceir partneriaeth ehangach ag asiantaethau cyflogaeth a hyfforddiant lleol yn sail ar gyfer hynny.

Mae ar awdurdodau cyhoeddus a'u partneriaid angen cryn fedrusrwydd er mwyn sicrhau cydraddoldeb hiliol drwy gaffael. Mae angen i'r naillartner a'r llall rannu ethos o wasanaeth cyhoeddus, a deall pwysigrwydd creu cyfoeth mewn modd cymdeithasol gynhwysol.

Er y dylid mabwysiadu hyn fel dull cyffredinol o gynyddu gwerth cymdeithasol gwariant cyhoeddus hyd yr eithaf, mae'r Tasglu yn benodol yn argymhell y dylid gweithredu fframwaith mesur ac atebolrwydd

cadarn ar gyfer datblygiad mawr yr Arena a'r buddsoddiad ehangach yng Nglanfa'r Iwerydd. Mae'r datblygiad hwn yn arwyddocaol yng nghydestun y lleoliad yn Butetown a'i agosrwydd at Grangetown a Glan-yr-afon, y wardiau mwyaf amrywiol o ran ethnigrwydd yn y ddinas, a lleoliad rhai o gymdogaethau mwyaf amddifadus Caerdydd o safbwynt economaidd-gymdeithasol.

Golwg ar: Ailddatblygu Glanfa'r Iwerydd

Bydd Arena Caerdydd a all gynnwys 15,000 o bobl yn cael ei hadeiladu ym Mae Caerdydd yn rhan o waith Cyngor Caerdydd i ailddatblygu Glanfa'r Iwerydd.

Bydd y datblygiad yn cynnwys cyfleusterau manwerthu a hamdden, gwestai, maes parcio aml-lawr a chartrefi newydd. Bydd yr arena wedi'i lleoli yng nghraidd ardal ddiwylliannol newydd a fydd yn cynnwys gofod cynhyrchu Canolfan Mileniwm Cymru, Oriel Gelf Genedlaethol o bosib, a gwibdaith 'Dyma Gymru' i ymwelwyr.

Mae consortiwm a arweinir gan gwmni adloniant Live Nation o'r Unol Daleithiau wedi'i ddewis fel y cynigydd a ffeirir i ddarparu arena dan do newydd a all gynnwys 15,000 ym Mae Caerdydd. Bwriedir mai dyma fydd "prif arena" rhanbarth de-orllewin Cymru a Lloegr.

Bydd adeiladu'r lleoliad newydd yn costio tua £150m, a rhagwelir y bydd yn denu dros filiwn o ymwelwyr ac yn cyfrannu amcangyfrif o £100m i'r economi leol bob blwyddyn.

1.4

ARGYMHELLIAD:



Cefnogi gweithlu cynhwysol ac ymgysylltiol lle mae'r holl staff yn deall ac yn cyfrannu at weithredu i sicrhau cydraddoldeb hiliol drwy raglenni mewnol sy'n codi ymwybyddiaeth

MANYLU

Clywodd y Tasglu am waith parhaus sy'n digwydd ar y cyd rhwng adran AD Cyngor a'r Rhwydwaith Gweithwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig, gan gynnwys cynllun gweithredu â ffocws mewnol wedi'i greu gan staff o fewn y Rhwydwaith a chyda chefnogaeth noddwr o blith yr uwch reolwyr, sef Prif Weithredwr y Cyngor.

Mae ymrwymiad y Cyngor i gasglu data ethnigrwydd y staff a sicrhau bod y data hyn ar gael i ddibenion craffu, ochr yn ochr â bwllch cyflog ethnigrwydd y sefydliad, hefyd yn ffordd ymarferol ac ystyrlon o ddeall a mynd i'r afael â'r rhwystrau y gallai trigolion lleiafrifol ethnig ddod ar eu traws yn ystod recriwtio ac wrth gamu ymlaen yn eu gyrfa o fewn y sefydliad. Y mae hefyd yn fodd i'r sefydliad gymryd camau parhaus i ddod yn fwy cynrychioliadol o'r ddinas amrywiol y mae'n ei gwasanaethu.

Ystyriai'r Rhwydwaith Staff Du, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig fod cyfleoedd i dynnu sylw at fodolaeth a blaenoriaethau'r Rhwydwaith staff mewnol, ac i wahodd ystod ehangach o staff o bob rhan o'r sefydliad i gymryd rhan mewn sgysiau a chynlluniau ar gydraddoldeb hiliol.

Cydnabu'r Tasglu, er y gallai trafod materion hil fod yn anodd ac anghyfyrdus, ei bod hi'n bwysig bod sgysiau yn parhau i gael eu cynnal, a bod staff o bob cefndir ethnig yn deall y rhan y gallant hwy eu chwarae wrth gefnogi cydraddoldeb hiliol yn y gwaith ac wrth ddarparu gwasanaeth.

O dan arweiniad y Cadeirydd presennol ac aelodau Rhwydwaith Staff Du, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig y Cyngor, mae'r Tasglu'n cefnogi cynnig y Rhwydwaith i ddatblygu ystod o adnoddau a chynnal rhaglenni ychwanegol i godi ymwybyddiaeth i staff y Cyngor, gan gynnwys hyfforddiant ychwanegol sy'n berthnasol i faterion cyfoes yn gysylltiedig â chydaddoldeb hiliol. Dylai timau Adnoddau Dynol a Chydaddoldeb y Cyngor gefnogi'r gwaith hwn, i sicrhau bod yr holl staff yn teimlo bod ganddynt gefnogaeth a hyder i gymryd rhan mewn sgysiau am ymagwedd y sefydliad at gydraddoldeb. Dylid trafod materion perthnasol gan gynnwys recriwtio, datblygu'r gweithlu a meithrin diwylliant cynhwysol sy'n arddangos dealltwriaeth o faterion cydraddoldeb a bwriad i hyrwyddo cydraddoldeb ym mhob agwedd ar fusnes.

Mae'n gadarnhaol bod Prif Weithredwr y Cyngor wedi cefnogi'r gwaith hwn hyd yma, ac mae'r Tasglu yn annog y dylid parhau i gael uwch reolwyr i noddi'r Rhwydwaith wrth iddo symud i'w gyfeiriad newydd, a cheisio codi proffil materion cydraddoldeb hiliol yn y gwaith.



Gweithio gyda chyflogwyr a thrigolion lleiafrifol ethnig i froceru cyfleoedd cyflogaeth

Mae'r argymhellion hyn yn cydnabod pwysigrwydd gwaith partneriaeth rhwng yr awdurdod lleol a darparwyr addysg, cyflogwyr lleol, a darparwyr gwasanaethau cyflogaeth er mwyn gwella cynrychiolaeth lleiafrifoedd ethnig yn y farchnad lafur leol.

Gall strategaethau lleol i froceru cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer trigolion lleiafrifol ethnig fod yn rhan o ymagwedd ehangach a gellir prif ffrydio camau gweithredu yn effeithiol i wasanaethau presennol. Yn rhan o'r ymagwedd hon, fodd bynnag, dylid dangos dealltwriaeth a sensitifrwydd tuag at faterion sy'n ymwneud â thangynrychiolaeth a'r union rwystrau y gallai trigolion lleiafrifol ethnig ddod ar eu traws yn y farchnad lafur. Dylai'r maes gwaith hwn ganolbwyntio ar gyflogwyr mawr a busnesau bach

a chanolig (BBaCh) lleol nad oes ganddynt yn aml y gallu i reoli'r gwaith gweinyddu'n gysylltiedig â lleoliadau gwaith ond a all gyfrannu at ymdrechion ar draws y ddinas i gynyddu cyfleoedd yn y farchnad lafur i drigolion o leiafrifoedd ethnig.

Yn ogystal â'r argymhellion a amlinellir isod, mae'r Tasglu hefyd yn cefnogi archwilio llwybrau cyflogaeth graddedigion yn y dyfodol ac yn annog cydweithredu pellach rhwng y Cyngor a Phrifysgolion y ddinas i ddarparu llwybrau newydd ar gyfer graddedigion o leiafrifoedd ethnig wrth iddynt drosglwyddo o'r brifysgol i waith. Roedd awydd cryf i fwrw ymlaen â hyn ar draws sefydliadau'r ddinas a gellid hyrwyddo hyn yng nghyd-destun rhwydwaith y ddinas a ddisgrifiwyd yn Argymhelliad 1.1.

1.5

ARGYMHELLIAD:

Cynyddu cyfranogiad grwpiau lleiafrifol ethnig yn y Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith

MANYLU:

Gwasanaeth cydgysylltu a broceru yw Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith Cyngor Caerdydd. Mae'nparu ceiswyr swydd â hyfforddiant perthnasol, cyfleoedd i uwchsgilio a chynghor am yrfaedd ac yn paru trigolion â chyfleoedd yn y farchnad lafur.


Mae'r gwasanaeth wedi'i hen sefydlu, gan gyrraedd tua 50,000 o drigolion bob blwyddyn, a llwyddo i leoli rhwng 800 a 100 o geiswyr swydd mewn rolau newydd bob blwyddyn.

Mae'r gwasanaeth i Mewn i Waith yn gweithredu ar draws Hybiau a Llyfrgelloedd yn y ddinas, gan olygu ei fod yn wasanaeth sy'n hygyrch i drigolion ar draws y ddinas yn eu cymdogaeth leol. Mae nifer o Hybiau eisoes wedi'u sefydlu mewn rhannau o'r ddinas sydd â'r amrywiaeth ethnig fwyaf, fel Butetown, Grangetown, y Llyfrgell Ganolog (sy'n gwasanaethu Cathays, Glan yr Afon a Phlasnewydd) a Hyb STAR (sy'n gwasanaethu Adamsdown a Sblot).

Canfu ymchwil gan y TUC fod y gyfradd ddiweithdra ar gyfer grwpiau lleiafrifol ethnig wedi codi dros ddwywaith mor gyflym â'r gyfradd ddiweithdra ar gyfer pobl Wyn yn ystod y pandemig. Wrth i weithwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig deimlo effaith economaidd y pandemig yn fwy difrifol, mae'n amserol ehangu cyfranogiad trigolion lleiafrifol ethnig yn y gwasanaeth i Mewn i Waith, ac yn gam buddiol yn rhan o ymateb Caerdydd i adfer ar ôl y pandemig, a bydd yn cyfrannu at nodau cydraddoldeb hiliol ehangach y ddinas.

Gallai'r gwaith hwn gynnwys rhaglenni codi ymwybyddiaeth a chynyddu capasiti staff yn rhannau o'r gwasanaeth sy'n gwasanaethu wardiau'r ddinas sy'n amrywiol o ran ethnigrwydd. Dylid bod yn dryloyw hefyd wrth gofnodi gwaith yn y dyfodol i ymestyn cyrhaeddiad, effaith a chanlyniadau'r gwasanaeth o ran cefnogi ceiswyr swydd o leiafrifoedd ethnig yn y ddinas.

1.6

ARGYMHELLIAD:

Gwella amlygrwydd a mynediad at Caerdydd ar Waith i grwpiau lleiafrifol ethnig

MANYLU:

Caerdydd ar Waith yw gwasanaeth staff dros dro mewnol Cyngor Caerdydd. Mae'n cynnig llwyfan bwysig i geiswyr swydd gael mynediad at rolau o fewn y Cyngor, gan weithredu fel llwybr i yrfa yn y sectorau cyhoeddus.

Mae'r Tasglu'n cefnogi ymdrechion a gweithgarwch o'r newydd i godi ymwybyddiaeth ynghylch y gwasanaeth ymhlith grwpiau lleiafrifol ethnig, sydd ar hyn o bryd yn cael eu tangynrychioli yng ngweithlu'r Cyngor, gan gydnabod y gallai'r gwasanaeth hwn fod yn borth hygyrch i'r amrywiaeth eang o lwybrau gyrfa sydd ar gael o fewn llywodraeth leol a'r sectorau cyhoeddus ehangach. Bydd cyflawni yn erbyn yr argymhelliad hwn nid

yn unig yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor i sicrhau gweithlu cynrychioliadol, ond hefyd yn sicrhau cyflenwad o dalent newydd i feysydd gwasanaeth lle profwyd prinder wrth recriwtio, gan gynnwys gofal cymdeithasol.

Wrth gyflawni'r argymhelliad hwn, dylai'r Cyngor ystyried sut i godi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaeth Caerdydd ar Waith, gan ein bod wedi clywed nad yw'r gwasanaeth yn arbennig o weladwy i drigolion a cheiswyr swydd o gefndiroedd lleiafrifol ethnig. Dylai hefyd ystyried sut y gellid cyrraedd trigolion lleiafrifol ethnig yn effeithiol drwy weithgarwch hyrwyddo, drwy gydweithio â sefydliadau cymunedol ac ysgolion.

Darparu cymorth wedi'i deilwra i staff, trigolion a phobl ifanc o leiafrifoedd ethnig

Mae'r gwahaniaeth o ran diweithdra a'r bwlch cyflogau rhwng grwpiau ethnig wedi cau rhywfaint, ond mae'r lefelau hyn yn dal i fod yn uwch ymhlith pobl ifanc o leiafrifoedd ethnig.³

Er bod y duedd gyffredinol yn gadarnhaol, ceir cyfle i'r Cyngor a'i bartneriaid ganolbwyntio o'r newydd ar 'feysydd heriol' penodol lle mae tangynrychiolaeth, tangyflogaeth a diweithdra yn parhau ymhlith grwpiau lleiafrifol ethnig penodol. Mae hyn yn gydnabyddiaeth o'r ffaith na allwn drin lleiafrifoedd ethnig fel un grŵp unigol sy'n wynebu'r un rhwystrau, ac y gellir, drwy ddull manylach, dangos ystyriaeth o'r rhwystrau ychwanegol y gallai merched

a phobl ifanc o leiafrifoedd ethnig eu profi.

Bydd cyhoeddi data Cyfrifiad diweddaraf 2021, a ddisgwyllir yn ddiweddarach eleni, yn rhoi mewnwelediad gwych i dueddiadau cyflogaeth lleol y ddinas, yn ôl ethnigrwydd a ffactorau demograffig eraill, gan roi mewnwelediad hollbwysig i'r blaenoriaethau y dylid eu targedu yng ngwaith y dyfodol. Er mwyn llywio strategaeth yn y dyfodol, dylai'r Cyngor sicrhau bod y data hyn yn weladwy ac yn ddealladwy yn fewnol ac ar draws ei bartneriaethau fel y gellir defnyddio'r data'n effeithiol wrth lunio polisi ar lefel y ddinas yn y dyfodol.

³ Ethnicity Facts and Figures, (2021) Unemployment by ethnicity. Yn cynnwys Cymru, Lloegr a'r Alban yn y flwyddyn 2019. Ffynhonnell: Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth. Ar gael yn: <https://www.ethnicity-facts-figures.service.gov.uk/work-pay-and-benefits/unemployment-and-economic-inactivity/unemployment/lates>



1.7

ARGYMHELLIAD:

Cefnogi llwybrau dilyniant gyrfa ar gyfer gweithwyr o leiafrifoedd ethnig yng Nghyngor Caerdydd

MANYLU:

Mae llawer o staff dawnus o leiafrifoedd ethnig yn cael eu hysgogi i ymuno â gweithlu'r Cyngor am eu bod yn dymuno gwasanaethu eu cymuned, gan gyfrannu profiad a sgiliau anhygoel i'r Cyngor a chreu budd enfawr i drigolion y ddinas. Fodd bynnag, mae grwpiau lleiafrifol ethnig ar hyn o bryd wedi'u tangynrychioli yng ngweithlu'r Cyngor yn ei gyfarwydd, ac yn enwedig yn y ddau chwarter uchaf o blith rolau'r Cyngor.

Yn debyg i rannau eraill o'r sectorau cyhoeddus, cydnabyddir bod degawd o lynder wedi amharu ar allu'r Cyngor i ddenu talent newydd i'r sefydliad, ar ôl gorffod rhewi trefniadau i recriwtio'n allanol am gyfnod hir. Mae hyn wedi atal cynnydd o ran gwireddu uchelgais y Cyngor i sicrhau tîm rheoli cynrychioliadol ac o fewn y cyd-destun hwn, mae angen ymagwedd fwriadol newydd i ddatblygu cyflenwad o dalent rheoli ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Tasglu'n argymhell y dylai'r Cyngor ganolbwyntio o'r newydd ar roi hwb i gynrychiolaeth ar raddau uwch (RhG+) a graddau porthi (8-10) yn enwedig, drwy becyn datblygu a mentora wedi'i gynllunio'n ofalus i staff lleiafrifol ethnig. Mae cynlluniau o'r fath wedi dechrau dwyn ffrwyth a chreu newid cadarnhaol mewn rhannau eraill o sectorau cyhoeddus y DU a gallant gynnig templed dylunio o'r 'hyn sy'n gweithio' o fewn sefydliad mawr a chymhleth yn y byd go iawn.

Gallai rhaglen o'r fath ymgorffori elfennau fel hyfforddiant arwain a rheoli, mentora a mentora o chwith a chynnig cyfleoedd i gwrdd ac ymgysylltu â'r uwch dîm rheoli presennol ac esiamplau lleiafrifol

ethnig i'w dilyn o lefelau uwch oddi mewn ac oddi allan i'r Cyngor. Gellir defnyddio argymhellion eraill yn yr adroddiad hwn i ategu'r gwaith, a fydd o gymorth i gynyddu newydd-ddyfodiaid o leiafrifoedd ethnig i weithlu'r Cyngor ar bob graddfa, a chryfhau'r gwaith ymhellach drwy ei alinio â mesurau ehangach i gynllunio'r gweithlu a rhaglenni datblygu trefniadol.

Mae'r Cyngor ar ei orau pan fydd yn adlewyrchu amrywiaeth y ddinas yn ei chyfarwydd ac yn gallu deall yr hyn y mae ar y cyhoedd ei angen. Mae llawer o gamau cadarnhaol eisoes wedi'u cymryd i gynyddu tryloywder mewn data ar y gweithlu a chyflogau, cefnogi gwaith y Rhwydwaith Staff Du, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig ac adnewyddu arferion recriwtio i leihau rhagfarn wrth lunio rhestr fer a dethol. Serch hynny, gall y Cyngor fod yn fwy uchelgeisiol, a dylai fod yn fwy uchelgeisiol, drwy gymryd camau cadarnhaol pellach tuag at gyflawni ei amcanion amrywiaeth,

Er mwyn cywiro'r dangynrychiolaeth o grwpiau lleiafrifol ethnig oddi mewn rolau canol ac uwch o fewn y Cyngor bydd angen ymagwedd ragweithiol a phenderfynol, gyda chefnogaeth y tîm rheoli presennol a digon o adnoddau i gefnogi mentrau amrywiaeth a chynhwysiant parhaus. Derbynnir na fydd y newid hwn yn digwydd dros nos. Mae hi bron yn sicr y bydd y daith i sicrhau corff cynrychioliadol o staff yn cymryd sawl blwyddyn, ond ni ddylai hyn leihau'r ffocws hirdymor ar gynydd nac amlygrwydd dyheadau'r sefydliad o ran amrywiaeth.

1.8

ARGYMHELLIAD:

Dylai Cyngor Caerdydd ystyried ESOL (Saesneg i Siaradwyr leithoedd Eraill) wedi'i arwain gan y cyflogwr i Staff Cyngor os yw eu sgiliau iaith yn rhwystr i ddyrchafiad

MANYLU:

Er bod data ymfudo Caerdydd yn dangos bod cymwysterau, statws cyflogaeth, enillion a sgiliau iaith cymunedau mudol y ddinas yn amrywio'n helaeth, roedd y Tasglu'n awyddus i ystyried beth arall y gellid ei wneud i gefnogi'r rhai hynny â lefelau is o Saesneg, a sicrhau gwelliant i'w canlyniadau cyflogaeth.

Mae'r argymhelliad hwn felly'n canolbwyntio ar drigolion Caerdydd nad ydynt wedi'u geni yn y DU ac sy'n dymuno gwella eu Saesneg hyd at lefel uwch neu lefel sgwrsio, a fyddai'n eu galluogi i gael gwaith mwy sicr a fyddai'n talu'n well, gan ganolbwyntio i ddechrau ar staff y Cyngor. Dyma garfan o drigolion sy'n gweithio i ennill incwm a chynnal eu teuluoedd, ond a fyddai'n awyddus i ddysgu Saesneg pe bai eu hamgylchiadau personol yn caniatáu hynny.

Mae angen strategaethau lluosog i fynd i'r afael â'r ffactorau sy'n atal cyfranogiad mewn gwersi ESOL, a gallai'r Cyngor gefnogi darpariaeth ychwanegol yn y gweithlu fel bo modd i staff lleiafrifol ethnig fanteisio ar wersi ESOL os ydynt yn dymuno. Byddai hyn yn cyfrannu at eu llesiant, eu cyfranogiad a dilyniant eu gyrfa yn y dyfodol, oddi mewn i'r sefydliad ac ym marchnad lafur ehangach y ddinas.

Gallai rhaglen beilot sy'n profi dull integredig o ddarparu ESOL yng nghyd-destun gweithlu'r Cyngor wella canlyniadau cyflogaeth a dilyniant i weithwyr mudol o fewn y Cyngor, gan gynnig manteision arbennig i staff â chefnid ffoi sy'n defnyddio Saesneg fel ail iaith neu iaith ychwanegol. Byddai'r dull hwn yn galluogi'r Cyngor i ddatblygu llwybrau cymorth a datblygiad newydd i staff lle bo sgiliau iaith ar hyn o bryd yn rhwystr iddynt wireddu eu dyheadau o ran gyrfa.

Er bod rhwystrau cymhleth yn atal darparu model ESOL integredig cynhwysfawr mewn cyd-destun cyflogaeth oherwydd fframweithiau ar raddfa'r DU, anogir y Cyngor i brofi dulliau newydd ac archwilio'r hyn sy'n bosibl o ran cefnogi dyheadau'r rhan hon o'i weithlu. Bydd hyn o fudd i staff unigol a hefyd i'r sefydliad drwy wella cynrychiolaeth ar bob lefel yn ei weithlu.

Fel man cychwyn, mae Caerdydd yn elwa ar Hyb ESOL (Saesneg ar gyfer Siaradwyr leithoedd Eraill) cynhwysfawr a gydlynir gan Goleg Caerdydd a'r Fro a'u rhaglen Reach sy'n arwain y diwydiant, a allai gynnig atebion a chyfleoedd newydd i fynd i'r afael â'r rhwystrau presennol.

Golwg ar Hyb ESOL REACH

Mae canolfan REACH Caerdydd yn darparu un pwynt cyswllt canolog i unrhyw un sy'n dymuno derbyn gwersi ESOL yn y ddinas, ac wedi'i lleoli yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro. Mae'r model wedi'i gydnabod fel un sy'n arwain y diwydiant gan fod y ddarpariaeth ESOL wedi'i chydgysylltu'n ganolog ac yn sicrhau asesiad o ansawdd uchel a dilyniant i'r cwrs priodol a chefnogaeth rwydd a chyflym. Mae'r gwasanaeth hwn yn ased unigryw i gefnogi dysgwyr ESOL yng Nghymru a hefyd yn darparu gwasanaethau cymorth ehangach i ffoaduriaid drwy'r rhaglen ReStart. Y mae hefyd yn cynnig ESOL sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth i roi dysgwyr ESOL ar lwybr carlam i'r farchnad lafur.

THEMA 2: ADDYSG A PHOBL IFANC

Mewnwelediadau Data Addysg a Phobl Ifanc

Cyrhaeddiad Addysgol

Yn y gorffennol, roedd disgyblion o leiafrifoedd ethnig yn profi anfantais o ran addysg ac roedd bwlch cyrhaeddiad ar lefel y DU gyfan rhwng grwpiau lleiafrifol ethnig a phlant Gwyn Prydeinig.

Dangosodd data o Gyfrifiad 2011 nad yw'r duedd hon yn berthnasol mwyach, ac mae cyrhaeddiad disgyblion o leiafrifoedd ethnig wedi cydgyfeirio, ac ar gyfer rhai grwpiau ethnig, wedi rhagori ar gyfartaleddau cenedlaethol.

Mae'r darlun o gyflawniad addysgol ar draws grwpiau ethnig yn gymhleth, ac mae ffactorau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol gwahanol yn cyfrannu at hyn: lefelau incwm rhieni, gyrfa a chyflawniad addysgol rhieni, daearyddiaeth a strwythur teuluol, ymhlith eraill.

Yr hyn sy'n amlwg, fodd bynnag, yw y gall cymorth cryf yn y blynyddoedd cynnar, ysgolion da ac ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth hefyd wella deilliannau addysgol ar draws pob grŵp a goresgyn ffactorau eraill yn rhannol. Felly, mae bron â chau'r bwlch cyrhaeddiad ethnig yn y ddinas yn dyst i wasanaethau cyhoeddus o safon ac arweinyddiaeth ysgolion ac mae'n haeddu cydnabyddiaeth yn ein hadroddiad.

Oherwydd pandemig Covid-19 a newidiadau i'r cwricwlwm yng Nghymru, mae'r data cyrhaeddiad disgyblion diweddar sydd ar gael yn bennaf yn cwmpasu cyfnod 2018-2019. Rydym yn cynnwys hyn yma fel enghraifft o dueddiadau cyrhaeddiad lleol, sy'n adlewyrchu data ehangach y DU, ond sy'n gyfyngedig gan nad yw'n adlewyrchu tirwedd Covid-19 na mesurau newydd ar gyfer perfformiad ysgolion yng Nghymru:

Addysg: Y Cyfnod Sylfaen hyd at Gyfnod Allweddol 3 (2018-2019)

	Unrhyw Gefndir Ethnig Arall	Asiaidd	Du	Tsieceinaidd	Cymysg	Gwyn	Cyfartaledd Caerdydd
Cyfnod Sylfaen 2018/19	76.8%	82.9%	81.1%	90.2%	84.3%	84.3%	83.5%
Cyfnod Allweddol 2 2018/19	84.2%	88%	88.5%	100%	90.1%	88.5%	88.4%
Cyfnod Allweddol 3 2018/19	85.9%	90.3%	86.7%	100%	86.5%	84.8%	85.6%

Esboniad: Mae data CA3 ar gyfer asesiad athrawon blwyddyn 2 (CS), blwyddyn 6 (CA2) a blwyddyn 9 (CA3). Y % yw cyfran y dysgwyr sy'n cyflawni'r deilliannau disgwylidiedig ym meysydd dysgu'r CS a phynciau craidd yn CA2 a CA3.

Addysg: Cyfnod Allweddol 4 (2018-2019)

	Unrhyw Gefndir Ethnig Arall	Asiaidd	Du	Tsieceinaidd	Cymysg	Gwyn	Cyfartaledd Caerdydd
Pwyntiau wedi'u Capio CA4 2018/19	404.0	404.6	376.5	426.1	378.5	378.3	369.33
Llythrennedd CA4 2018/19	42.0	43.3	41.1	45.0	41.5	41.4	40.5
Rhifedd CA4 2018/19	41.8	42.2	37.0	48.0	38.1	39.0	38.2
Gwyddoniaeth CA4 2018/19	41.5	42.6	36.3	44.0	37.7	38.6	37.4
Tystysgrif Her Sgillau CA4 2018/2019	41.4	42.6	39.7	49.0	37.5	37.3	36.7

Esboniad: Pwyntiau wedi'u Capio yw'r canlyniadau cyffredinol/cyfunol yn CA4 (TGAU BI 10/11), gyda'r gweddill yn ddadansoddiad o feysydd pwnc ar wahân o fewn CA4.

Er gwaethaf cynnydd sylweddol o ran lefelu cyrhaeddiad addysgol, mae'n amlwg o ddata cynharach yn yr adroddiad hwn fod lleiafrifoedd ethnig yn parhau i wynebu rhwystrau wrth geisio symud i fyny mewn cymdeithas. Rydym wedi amlinellu nifer o argymhellion ar lefel dinas yn y bennod Cyflogaeth a Gweithlu Cynrychioliadol yr adroddiad hwn a fydd yn helpu i fynd i'r afael â hyn.

Profiadau o fewn y system addysg

Mae adroddiad diweddar gan Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth wedi cofnodi tystiolaeth sy'n destun pryder gan ddisgyblion, rhieni a staff addysgu yng Nghymru o nifer yr achosion o fwlio a rhagfarn sy'n gysylltiedig â hil yn yr ysgol.

ROEDD
44%

O'R YMATEBWYR YNG NGHYMURU YN YMWBODOL BOD PLENTYN YN CAEL EI FWLIO OHERWYDD EI ETHNIGRWYDD, EI GREFYDD NEU EI GENEDLIGRWYDD.

ROEDD
25%

O ATHRAWON WEDI ARSYLWI NEU YMATEB I AGHOS O WAHANIAETHU AR SAIL HIL YN YSTOD Y 12 MIS DIWETHAF.

Amrywiaeth a chynrychiolaeth yng ngweithlu addysg y ddinas

MAE
1.5%

O ATHRAWON CAERDYDD O GEFNDIR LLEIAFRIFOL ETHNIG

MAE
35.2%

O BOBL IFANC O GEFNDIR LLEIAFRIFOL ETHNIG YNG NGAERDYDD

MAE
91.6%

O ATHRAWON COFRESTREDIG A ADNABUWYD YN GENEDLAETHOL FEL GWYN.

NODODD
1.3%

O ATHRAWON A GOFRESTRWYD GYDA CHYNGOR Y GWEITHLU ADDYSG YNG NGHYMURU EU BOD YN DDU, ASIAIDD NEU O GEFNDIR ETHNIG LLEIAFRIFOL, O GYMHARU Â 5.2% O'R BOBLOGAETH ECONOMAIDD WEITHGAR.

DYWEDODD
3.7%

O FYFYRWYR A DDECHREUODD HYFFORDDI I FOD YN ATHRAWON YNG NGHYMURU YN 2018-19 EU BOD YN DOD O GRŴP LLEIAFRIFOL ETHNIG.

Hanes Pobl Dduon a'r cwricwlwm newydd i Gymru

Bydd fframwaith y Cwricwlwm newydd i Gymru yn cael ei gyflwyno o fis Medi 2022.

Cymru yw cenedl gyntaf y DU i gyflwyno dysgu gorfodol am amrywiaeth cymunedau, yn enwedig straeon pobl Dduon, Asiaidd a Lleafrifoedd Ethnig, yn y cwricwlwm cenedlaethol.

Mae Pobl Ifanc o Gaerdydd wedi arwain ymgyrchoedd i gynnwys hanes Pobl Dduon yn y cwricwlwm ac wedi siarad yn uniongyrchol ag Aelodau'r Senedd am arwyddocâd y newid hwn i genedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.

Fel Tasglu, croesawyd y penderfyniad aruthrol hwn a'r weledigaeth uchelgeisiol ar gyfer addysg gynhwysol yng Nghymru. Rydym yn dathlu ac yn cydnabod ymdrechion pobl ifanc ein dinas i sbarduno'r newid hwn.



**OS YDYM AM GAEL
CYMDEITHAS SY'N
WELL I BAWB, LLE
CEIR CYDRADDOLDEB A
CHYNRYCHOLAETH DEG, YNA
MAE ANGEN HYN ARNOM.
MAE'N ENFAWR O RAN
SIAPIO PWY FYDD POBL
IFANC YN Y DYFODOL
BOED HYNNY'N SWYDDOG
HEDDLU, YN ATHRO, YN
WLEIDYDD.**



Angel Ezeadum, aelod o Senedd Ieuenctid y DU dros Gaerdydd, yn siarad â'r Senedd am Hanes Pobl Dduon yn y Cwricwlwm.



ADDYSG A PHOBL IFANC: EIN HARGYMHELLION

Mae'r thema waith hon yn canolbwyntio ar ddatblygu atebion i gefnogi diwylliant addysg cynhwysol a hyrwyddo dysgu hygyrch am amrywiaeth ethnig a Hanes Pobl Dduon yn ysgolion Caerdydd.

Mae ein hargymhellion hefyd yn cynnwys camau gweithredu sy'n ymwneud â gweithlu'r ysgol, gwella cynrychiolaeth mewn cyrff llywodraethu a gwella ymagwedd ysgol gyfan o ymdrin â chydaddoldeb hiliol.

Mae'r Tasglu wedi elwa ar arbenigedd a chefnogaeth llawer o ymarferwyr talentog ac arweinwyr ysgolion wrth ddatblygu'r cynigion hyn. Gyda'i gilydd, maent yn gyfres gynhwysfawr a realistig o fesurau y gall ysgolion a phartneriaid addysg Caerdydd eu mabwysiadu a'u datblygu, gan sicrhau bod cydraddoldeb hiliol yn 'llynyn euraid' sy'n rhedeg drwy holl bolisiau ysgolion.

Er y gellir bwrw ymlaen â'n cynigion yn y maes hwn drwy ymdrechion rhanddeiliaid a phartneriaethau lleol, cyfyngir rhywfaint ar hyn o bryd ar y graddau y gellir eu cyflawni heb gymorth a chydweithredu pellach ar lefel genedlaethol. Yn benodol, mae'r Tasglu'n cydnabod bod cywiro tangynrychiolaeth grwpiau lleiafrifol ethnig yn y gweithlu addysgu yn fater cymhleth i Gymru gyfan ac yn cefnogi ymdrechion pellach i ddenu graddedigion o leiafrifoedd ethnig i addysgu ar lefel genedlaethol.

2.1

ARGYMHELLIAD:



Cryfhau'r ymagwedd leol at ymdrin â bwlio a digwyddiadau sy'n gysylltiedig â rhagfarn yn yr ysgol

MANYLU:

Fel prifddinas Cymru a chyda thros draean o ddisgyblion Caerdydd o gefndir lleiafrifol ethnig, mae canfyddiadau ymchwil Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth bod llawer o ddisgyblion Cymru yn parhau i brofi ac arsylwi bwlio sy'n gysylltiedig â hil yn alwad am weithredu pellach ar fwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn ac ymateb system fwy cynhwysfawr yn ein dinas.

Mae'r ymchwil hwn yn dangos y byddai mwy o arweiniad a hyfforddiant yn cefnogi athrawon a'r gweithlu addysg ehangach i sicrhau ymateb cyson o ansawdd uchel i achosion o hiliaeth a bwlio sy'n gysylltiedig â hil mewn ysgolion.

Fel Tasglu, rydym yn annog y Cyngor i sicrhau bod adnoddau priodol a chyfluoedd datblygu sgiliau yn cael eu cynnig i staff addysgu i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r adroddiad hwn a thystiolaeth berthnasol arall ynghylch bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn a'r effaith ar les plant.

Dylai fframwaith ar gyfer ymateb i fwlio sy'n ymwneud â rhagfarn fod ar gael i ysgolion, rhieni a rhanddeiliaid ehangach. Dylai hyn egluro a chodi ymwybyddiaeth o hawliau a chyfrifoldebau disgyblion a sut mae ysgolion yn ymateb i ymddygiad o'r fath gydag ymateb sy'n briodol i oedran ac sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Dylai hyn gynnwys cyngor penodol ar gefnogi pobl ifanc sy'n profi bwlio sy'n ymwneud â rhagfarn a chynnal sgysiau cefnogol gyda phobl ifanc sy'n cefnogi eu dysgu a'u datblygiad personol.

Dylid hefyd annog a chefnogi ysgolion i gofnodi digwyddiadau o'r fath yn gyson a cheisio cyngor a chefnogaeth gan dîm addysg y Cyngor ac arbenigedd o'r sectorau gwirfoddol yn ôl yr angen.

Mae gan Gaerdydd gyfle i ddatblygu ymateb clir i'r mater cenedlaethol hwn a bydd gwneud hynny'n gwneud cyfraniadau sylweddol i les disgyblion o leiafrifoedd ethnig ac yn sicrhau profiadau addysg cadarnhaol. Fel dinas ethnig amrywiol, rhaid i hyn fod yn rhan o gymorth cyfannol i ddisgyblion a'r cynnig gofal bugeiliol i bobl ifanc o Gaerdydd, nawr ac ar gyfer y dyfodol.



2.2

ARGYMHELLIAD:



Ymestyn gwaith Ysgolion Noddfa i rwydwaith ehangach o ysgolion a chefnogi cyfranogiad cymunedau o ffoaduriaid a cheiswyr lloches

MANYLU:

Rhwydwaith cynyddol o fwy na 300 o ysgolion cynradd ac uwchradd ledled y DU yw Ysgolion Noddfa. Wedi'i sbarduno gan athrawon, staff ysgolion, rhieni, llywodraethwyr a grwpiau cymunedol, mae'r rhwydwaith hwn yn cefnogi'r miloedd o bobl ifanc sy'n ceisio noddfa yn y DU, yn codi ymwybyddiaeth o'r materion sy'n wynebu pobl yn y system noddfa, yn herio camsyniadau ac yn adeiladu cydlyniant cymdeithasol.

Mae Ysgolion Noddfa yn rhan o Rwydwaith Dinas Noddfa, mudiad i'w groesawu'n weithredol sydd ledled y DU a Gweriniaeth Iwerddon, yn cydlynu gweithgarwch ac yn rhoi cymorth i bobl sydd wedi'u dadleoli ar lefel leol. Mae Caerdydd wedi dal statws Dinas Noddfa ers 2010 a'i Hysgol Noddfa gyntaf oedd Ysgol Uwchradd Llanisien, gan ennill y statws hwn yn 2018.

Mae Ysgol Noddfa achrededig yn sydd wedi derbyn cydnabyddiaeth gan City of Sanctuary UK neu sefydliad partner ar ffurf Gwobr Noddfa am ei harfer da o ran meithrin diwylliant o groeso a chynhwysiant.

I fod yn gymwys ar gyfer y wob, rhaid i ysgolion ddangos eu bod wedi gweithredu tair egwyddor allweddol:

- **Dysgu:** Mae ysgolion yn helpu eu myfyrwyr, eu staff a'r gymuned ehangach i ddysgu am yr hyn y mae'n ei olygu i fod yn chwilio am noddfa a'r materion sy'n ymwneud â mudo gorfodol.
- **Gwreiddio:** Mae ysgolion wedi ymrwymo i greu diwylliant diogel a chynhwysol o groeso sydd o fudd i bawb, gan gynnwys unrhyw un yn eu cymuned sy'n ceisio noddfa.
- **Rhannu:** Mae ysgolion yn rhannu eu gwerthoedd a'u gweithgareddau gyda'u cymunedau lleol.

Er bod nifer o ysgolion Caerdydd eisoes wedi elwa o fod yn aelod o'r rhaglen Ysgolion Noddfa, yn enwedig y rhai sy'n gwasanaethu ac yn addysgu llawer o bobl ifanc y mae eu teuluoedd wedi cael eu gorfodi i ddadleoli, mae'r Tasglu yn annog ymestyn y rhaglen i gynulleidfa ysgol ehangach.

Gyda Chaerdydd, fel dinas, yn gwneud cyfraniadau sylweddol tuag at ailsefydlu ffoaduriaid a chefnogaeth ceiswyr lloches o fewn cyd-destun Cymru a'r DU gyfan, mae'n bwysig bod pobl ifanc ein dinas yn cael cyfluoedd i ddysgu am fudo gorfodol. Gall ysgolion Caerdydd wneud cyfraniad pwysig at well dealltwriaeth a chefnogaeth i bobl sydd wedi'u dadleoli yn ein dinas.

Byddai cynnwys trigolion Caerdydd â phrofiadau personol o system noddfa'r DU yn y gwaith hwn yn darparu cyfluoedd pellach ar gyfer grymuso, cysylltiad ystyrlon a dysgu.

2.3

ARGYMHELLIAD:



Gwella profiadau dysgwyr ac athrawon Duon, Asiaidd a Lleafrifoedd Ethnig mewn ysgolion drwy fabwysiadu ymagwedd gynhwysol a gwrth-hiliol at addysgu a phrofiadau ysgol

MANYLU:

Gall ein hysgolion newid bywydau, a dyna pam ei bod hi'n hanfodol bod pob ysgol yn gynhwysol er mwyn cael y gorau gan ein disgyblion. Maent hefyd yn cynnig lle i ni herio 'normaleiddio' anghydraddoldeb hiliol.

Mae cefnogi ymagwedd ragweithiol a bwriadol o fewn cymuned yr ysgol yn grymuso disgyblion yn ddeallusol, yn gymdeithasol ac yn emosïynol, gan eu paratoi ar gyfer byd amlddiwylliannol ac amlhiliol cyfoes.

Mae'r Tasglu yn argymhell bod ysgolion Caerdydd yn cael eu cefnogi i gynnwys disgyblion mewn sgysia, dysgu a chymuned gweithredu ystyrion sy'n mynd i'r afael â rhagfarn hiliol a'u bod yn cael eu cefnogi'n rhagweithiol i fod yn rhan o daith y ddinas i sicrhau newid ar anghydraddoldebau parhaus.

Er mwyn cefnogi ysgolion Caerdydd i ddatblygu a rhannu ymagweddau gwrth-hiliol, dylai'r Cyngor geisio nodi camau ymarferol y gall arweinwyr ac athrawon ysgolion eu cymryd, yn yr ystafell ddsbarth ac ar draws yr ysgol, i herio hiliaeth ac anghydraddoldebau hiliol. Mae sawl ysgol yng Nghaerdydd eisoes wedi datblygu ymagweddau ystyrion a chynhwysfawr o ddysgu am gymunedau a hanes mudo ein dinas. Mae'r Tasglu yn annog rhagor o gydweithio a mentora rhwng ysgolion i ymestyn a chryfhau'r ymagwedd hon.

Mae rhai cwestiynau allweddol y mae'r Tasglu yn annog arweinwyr ysgolion a staff i fyfrio arnynt gyda chymuned eu hysgol yn cynnwys:

- A ydym wir yn gwybod pwy yw ein disgyblion?
- A ydym yn ymwybodol o'r materion cymdeithasol, cymunedol a diwylliannol ehangach y mae llawer o'n disgyblion yn byw drwyddynt?
- Sut mae dod i adnabod ein disgyblion a sicrhau bod eu barn, eu diddordebau, eu profiadau a'u dyheadau byw yn llywio ac yn arwain ein harferion addysgu?



2.4

ARGYMHELLIAD:



Cefnogi arallgyfeirio'r gweithlu addysgu drwy Raglen 'Camu i Mewn i Addysgu' i gymorthyddion dysgu

MANYLU:

Mae manteision gweithlu addysg amrywiol wedi'u dogfennu'n dda; fodd bynnag, mae grwpiau lleiafrifol ethnig yn parhau i gael eu tangynrychioli yn y proffesiwn addysgu yng Nghymru o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol (Cyngor y Gweithlu Addysg, 2020). Nid yw Caerdydd yn eithriad i'r duedd hon ond fel prifddinas ethnig amrywiol Cymru, mae ganddi gyfle i ddatblygu a phrofi dulliau newydd o wella cynrychiolaeth yn y gweithlu addysgu.

Amcangyfrifir bod 8% o Gymorthyddion Dysgu Caerdydd yn dod o gefndir lleiafrifol ethnig, o'i gymharu â thua 1.5% o athrawon.

Er nad yw'r ffigurau hyn yn gynrychioliadol o amrywiaeth ethnig y ddinas o hyd, ac yn arbennig felly o ran y boblogaeth amrywiol o ysgolion, mae'r gweithlu Cymorthyddion Dysgu lleiafrifoedd ethnig presennol yn garfan o ymarferwyr addysg lleol profiadol y byddai eu dilyniant i Statws Athro Cymwysedig (SAC), lle bo hynny'n briodol a lle mae'r aelod o staff yn dymuno gwneud hynny, yn cefnogi amrywiaeth y gweithlu ymhlith SAC.

Ochr yn ochr â llwybrau graddedigion, dylai rhanddeiliaid lleol archwilio talent leol gynyddol o fewn y gweithlu presennol a chefnogi dilyniant Cynorthwyr Addysgu lle mae staff yn anelu at symud ymlaen i rolau addysgu a bod ganddynt, neu y gallent ddatblygu, y sgiliau i wneud hynny.

Mae cyfle i gysylltu staff â llwybrau cymhwyster llwybr carlam presennol i Statws Athro Cymwysedig ar gyfer Cymorthyddion Dysgu a gynigir gan rai prifysgolion yn y DU. Gellid ategu hyn ag ymagweddau pwrpasol ychwanegol sy'n ymateb i anghenion datblygu sgiliau penodol cymorthyddion dysgu lleiafrifoedd ethnig Caerdydd, er enghraifft, darpariaeth ESOL bellach wedi'i hintegreiddio i'r rhaglen gymwysterau.

Byddai cydweithio pellach â Llywodraeth Cymru ac Addysgwyr Cymru yn cefnogi cynnydd ar yr argymhelliad hwn ac yn cyd-fynd â'r ymrwymadau a wnaed yng Nghynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru.



2.5**ARGYMHELLIAD:**

Cynyddu cynrychiolaeth trigolion o leiafrifoedd ethnig mewn arweinyddiaeth ysgolion drwy raglen mynediad Llywodraethwyr Ysgol

MANYLU:

Mae gan dimau arwain ysgolion rôl hanfodol i'w chwarae wrth lunio diwylliant ysgol cynhwysol a gweithredu polisiau gwrth-hiliaeth effeithiol. Mae bwrdd Llywodraethu amrywiol yn fwrdd cryfach, sy'n adlewyrchu cymunedau ysgol a'r ddinas ehangach.

Mae data ethnigrwydd cyfyngedig ar gael ynglŷn â Llywodraethwyr Ysgol presennol yng Nghaerdydd, ond awgrymodd adborth anffurfiol fod angen ymdrechion pellach i gefnogi cyfranogiad lleiafrifoedd ethnig mewn Cyrff Llywodraethu.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd byrddau amrywiol fel bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn gadarn gyda mewnbwn gan bobl ag amrywiaeth o brofiadau byw – yn ogystal â sgiliau amrywiol. Mae hefyd yn hanfodol bod plant yn gweld pobl o bob cefndir mewn swyddi ar lefel bwrdd.

O'r herwydd, mae'r Tasglu yn annog sectorau addysg Caerdydd i sefydlu data sylfaenol yn gyntaf ar amrywiaeth llywodraethwyr ysgol ac ystyried dulliau newydd o recriwtio i ddenu trigolion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig i'r rolau pwysig hyn.

**2.6****ARGYMHELLIAD:**

Cynyddu amlygrwydd modelau rôl Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig ac addysg gyhoeddus ar Hanes Pobl Dduon drwy raglennu digwyddiadau

MANYLU:

Dydd Mercher 29 Medi 2021, dadorchuddiwyd cofeb hanesyddol i anrhydeddu Betty Campbell, pennaeth Du cyntaf Cymru ac ymgyrchydd hanes Pobl Dduon amlwg, dynnodd sylw at un o wneuthurwyr newid du arwyddocaol Caerdydd. Roedd hon yn foment hynod o falch i'n dinas ac yn annog myfyrion ar y cynnydd a wnaed a'r pellter y mae'n rhaid i ni barhau i deithio ar gydraddoldeb.

Roedd y gwaith hwn o osod y gofeb yn arbennig o arwyddocaol i drigolion a phobl ifanc Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig ein dinas, gydag etifeddiaeth

Betty wedi'i hymgorffori yn y Sgwâr Canolog amlwg i genedlaethau'r dyfodol ei rhannu a'i dathlu.

Er mwyn cefnogi myfyrion a dysgu parhaus ar werthoedd cydraddoldeb ac addysg yr oedd Betty yn sefyll drostynt, mae'r Tasglu yn annog cyflwyno Darlith Flynyddol Betty Campbell mewn lleoliad amlwg yng Nghaerdydd i sicrhau parhad etifeddiaeth sylweddol Betty o addysg gynhwysol ym Mhrifddinas Cymru a'i rôl yn eirioli dros gyflwyno Hanes Pobl Dduon i'r cwricwlwm ysgol.



THEMA 3: LLAIS Y DINESYDD

Mewnwelediadau Data: Llais y Dinesydd

Mae Seneddau a Chynghorau yn sefydliadau cynrychioliadol, gyda'r rhai a etholwyd yn cynrychioli llais eu hetholwyr o fewn system y DU o ddemocratiaeth gynrychioliadol ffurfiol.

Er y bu gwelliannau yng nghynrychiolaeth grwpiau lleiafrifol ethnig yn San Steffan a'r Senedd, mae pobl o leiafrifoedd ethnig yn parhau i gael eu tangynrychioli yn rolau AS, AoS ac fel cynghorwyr lleol, mewn perthynas â phoblogaeth gyffredinol Cymru.

Yma, rydym wedi crynhoi'r data a'r ymchwil sydd ar gael ar gynrychiolaeth wleidyddol ac ymgysylltiad dinasyddion â grwpiau lleiafrifol ethnig.

Mae'r data hwn yn dangos y sefyllfa bresennol o ran cynrychiolaeth mewn gwleidyddiaeth a gwneud penderfyniadau a darparu mynediad teg i ddylanwad a phŵer yn y ddinas.

Noder: Prin yw'r data sydd ar gael ynghylch demograffeg grwpiau sy'n cymryd rhan mewn prosesau democrataidd ar lefel y DU neu Gymru, a hyd yn oed yn llai ar gael wrth edrych ar ymgysylltu democrataidd ar lefel dinas, felly yma rydym yn dibynnu'n bennaf ar ymchwil ledled y DU ar gyfer mewnwelediadau cyffredinol i brofiadau trigolion o leiafrifoedd ethnig.

Senedd y DU

Mae nifer yr ASau o leiafrifoedd ethnig wedi cynyddu ym mhob etholiad ers 1987, gan gyrraedd y lefel uchaf erioed o 65 yn Etholiad Cyffredinol 2019, ac mae 37 ohonynt yn fenywod. Mae hyn bellach yn golygu bod un o bob deg AS o gefndir lleiafrif ethnig, pan mai dim ond un o bob deugain oedd y ffigur 10 mlynedd yn ôl.

Yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon nid oes ASau o leiafrifoedd ethnig ar hyn o bryd.

Senedd Cymru

Mae tri (5%) o'r 60 Aelod sy'n gwasanaethu yn y Senedd o gefndir lleiafrif ethnig. Yr un sydd wedi gwasanaethu hiraf yw Vaughan Gething, sy'n cynrychioli etholaeth De Caerdydd a Phenarth, sydd wedi bod yn AoS Llafur ers 2011 ac sydd ar hyn o bryd yn Weinidog dros yr Economi, ar ôl gwasanaethu fel Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn flaenorol rhwng 2016 a 2021.

Yr aelod cyntaf o leiafrif ethnig yn y Senedd oedd Mohammad (Oscar) Asghar, a etholwyd yn AC Plaid Cymru yn 2007 ac yna fel Ceidwadwr yn 2011 a 2016. Etholwyd ei ferch Natasha Asghar yn ei sedd yn 2021 gan ei gwneud hi'n aelod benywaidd cyntaf o leiafrif ethnig yn y Senedd.

Llywodraeth Leol yng Nghymru

Nododd yr arolwg diweddaraf o gynghorwyr ac ymgeiswyr yng Nghymru (2017) fod 1.8% o gynghorwyr sir a chynghorwyr bwrdeistref a ddarparodd eu data ethnigrwydd yn dod o grwpiau lleiafrif ethnig, i fyny o 0.6% yn 2012. Poblogaeth lleiafrifol ethnig gyfatebol Cymru oedd 4.4%.

Data ethnigrwydd cynghorwyr ar gyfer Cyngor Caerdydd

Wrth weithredu un o argymhellion cynnar y Tasglu, cefnogodd Tim Gwasanaethau Democrataidd Caerdydd ein cais i archwilio data ethnigrwydd cynrychiolwyr etholedig presennol y ddinas a chwblhau crynodeb data sylfaenol ar gyfer Cynghorwyr presennol Caerdydd yn ystod hydref 2021.

Mae canfyddiadau'r arolwg yn dangos bod 12% o Gynghorwyr sy'n gwasanaethu yn ystod tymor bwrdeistrefol 2017-2022 yn dod o gefndir lleiafrif ethnig.

Mae'r canfyddiad hwn yn seiliedig ar gyfradd gwblhau o 85% (64 allan o 75 o Gynghorwyr yn ymateb i'r arolwg). Nid yw data ethnigrwydd wedi'i gasglu ar gyfer Cynghorwyr Caerdydd o'r blaen felly nid yw'n bosibl disgrifio unrhyw dueddiadau lleol ond mae'r Cyngor wedi amlinellu ei fwriad i gasglu'r data hwn yn nhermau bwrdeistrefol yn y dyfodol, gan weithredu ein hargymhelliad o fewn y thema hon.


Cofrestru pleidleiswyr a nifer y pleidleiswyr a bleidleisiodd

Mae ymchwil gan y Comisiwn Etholiadol yn dangos nad yw pobl o leiafrifoedd ethnig wedi'u cofrestru'n ddigonol i bleidleisio.⁴ Mae data'r Comisiwn yn dangos nad yw 25 y cant o bleidleiswyr Du ym Mhrydain Fawr wedi'u cofrestru. Mae hefyd yn dweud nad yw 24 y cant o bleidleiswyr Asiaidd a bron i draean (31 y cant) o bobl gymwys ag ethnigrwydd cymysg wedi'u cofrestru eto, o'i gymharu â chyfartaledd o 17 y cant ar draws y boblogaeth.⁵

Prin yw'r data sydd ar gael i wahaniaethu effeithiau cyrhaeddiad addysgol, incwm, cyd-destun economaidd-gymdeithasol, bod yn berchen ar dŷ a ffactorau perthnasol eraill mewn tueddiadau cofrestru pleidleiswyr. Nid yw'n bosibl deall ar hyn o bryd unrhyw gydberthynas bosibl rhwng y ffaith bod gan grwpiau lleiafrifol ethnig boblogaeth iau na'r grŵp ethnig Gwyn ac mae pobl ifanc yn llai tebygol o fod wedi'u cofrestru i bleidleisio.

Nid oes llawer iawn o ddata i ddeall y rhesymau dros dangofrestru. Mae damcaniaethau'n cynnwys bod y rhai sydd wedi mudo i'r DU ac sy'n gymwys i bleidleisio wedi'u tangofrestru ond nid oes tystiolaeth feintiol ar faint y bwlch hwn. Gall rhwystrau eraill gynnwys diffyg sgiliau Saesneg neu ddiffyg gwybodaeth am y broses a'r etholiadau ond mae'r ymchwil sydd ar gael yn gyfyngedig. Canfu astudiaeth yn 2010, The Ethnic Minority British Election Study, a gwblhawyd mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Runnymede, nad oedd bron i 3 o bob 10 o bobl nad oeddent wedi cofrestru yn credu bod ganddynt hawl i bleidleisio, tra bod chwarter wedi symud adref yn ddiweddar. Gan ymestyn hawliau pleidleisio i bob gwladolyn nad ydynt wedi'u geni yn y DU sy'n preswylu'n gyfreithlon yng Nghymru ar gyfer etholiadau'r Senedd a llywodraeth leol, mae'r canfyddiad hwn yn gofyn am fyfyrion ychwanegol i gefnogi'r gwaith o gyfathrebu'r hawliau ychwanegol hyn i drigolion Cymru y mae'n berthnasol iddynt.

Pam nad wyt ti ar y gofrestr?



Sylfaen: Pob ymatebydd EMBES sydd ddim ar y gofrestr (255)

Ffynhonnell: BMRB

C. Beth yw'r prif resymau pam nad ydych ar y gofrestr etholiadol? MULTICODE

* Gallai fod pobl yn y grŵp hwn nad ydynt yn ymwybodol bod cenedligrwydd y Gymanwlad yn ddigonol i hawlio'r etholfraint

⁴ Y Comisiwn Etholiadol, Voter engagement among Black and Ethnic Minority Communities, https://www.electoralcommission.org.uk/sites/default/files/electoral_commission_pdf_file/Ethnicfinalreport_11586-6190__E__N__S__W__.pdf

⁵ Y Comisiwn Etholiadol, 1 in 4 black and Asian voters are not registered to vote, warns the Electoral Commission, <https://www.electoralcommission.org.uk/media-centre/1-4-black-and-asian-voters-are-not-registered-vote-warns-electoral-commission>

⁶ Ethnic Minority British Election Study: Electoral registration and turnout data, <https://www.runnymedetrust.org/uploads/EMBES%20Turnout%20and%20Registration.pdf>

Mae cysylltiad rhesymegol rhwng cyfraddau pleidleisio mewn etholiadau a chyfraddau cofrestru: ni ellir pleidleisio heb fod wedi'ch cofrestru. Fodd bynnag, gall rhywun fod wedi'i gofrestru a pheidio â throï allan i bleidleisio — felly mae'n bwysig ystyried a yw rhai grwpiau'n wynebu heriau penodol wrth droï allan i bleidleisio.

Cyfrifir y nifer sy'n pleidleisio gan awdurdodau lleol o'r pleidleisiau a fwrwyd o gymharu â chyfanswm y pleidleiswyr cofrestredig cymwys. Nid oes unrhyw ddata demograffig am y rhai sy'n troï allan yn cael ei gasglu ar adeg pleidleisio, felly mae unrhyw ddadansoddiad yn ôl oedran neu ethnigrwydd yn dibynnu ar ddata'r arolwg. Fodd bynnag, mae'r data hwn yn annibynadwy oherwydd bod pobl yn tueddu i orbwysleisio eu hanes o droï allan i bleidleisio.

Daw'r dystiolaeth fwyaf cadarn ar y nifer sy'n troï allan i bleidleisio o'r British Election Study, sy'n dangos bwlch sylweddol yn y nifer sy'n pleidleisio yn ôl oedran gyda phobl hŷn yn llawer mwy tebygol o bleidleisio na phobl ifanc. Mae siawns o tua 80% bod dyn 70 oed wedi pleidleisio yn yr etholiad cyffredinol diwethaf, o'i gymharu â siawns o 45% y gwnaeth dyn 20 oed.⁷ Mae'r canfyddiad hwn yn arwyddocaol yng nghyd-destun diwygiadau diweddar i ostwng yr oedran pleidleisio i 16 yng Nghymru ar gyfer etholiadau'r Senedd a'r Cyngor.

Mae data arolwg arall yn awgrymu bod y nifer sy'n pleidleisio ymhlith grwpiau lleiafrifol ethnig bum pwynt canran yn is na'r cyfartaledd, er y gallai hyn adlewyrchu eu cyfradd gofrestru is. Mae rhywfaint o dystiolaeth hefyd bod pobl o leiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o bleidleisio os yw rhywun o'r un ethnigrwydd yn sefyll.⁸

Gwybodaeth am etholiadau ac ymgysylltu gwleidyddol

Yn anffodus, nid oes digon o ddata ar sut mae pobl yn dysgu am etholiadau, heb sôn am a yw hyn yn wahanol yn ddemograffig neu rhwng nodweddion eraill.

Daw'r data gorau sydd ar gael ar y pwnc hwn o Archwiliad o Ymgysylltiad Gwleidyddol Cymdeithas Hansard,⁹ sy'n dangos mai newyddion teledu a radio sydd â'r rôl fwyaf i'w chwarae o hyd o ran cael gwybodaeth etholiadol i bobl, er bod pobl iau yn fwy tebygol o geisio gwybodaeth ar-lein a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol.

LLAIS Y DINESYDD EIN HARGYMHELLION

Mae ein hargymhellion yn y maes hwn yn canolbwyntio ar atebion a arweinir yn lleol i gynyddu amrywiaeth ethnig mewn gwleidyddiaeth ac wrth wneud penderfyniadau a dulliau ehangach o gyfranogi.

Mae'r duedd o gynyddu amrywiaeth ethnig yn ein dinas, fel dinasoedd eraill ledled y DU, yn codi cwestiynau pwysig ynghylch sut y gellir gwasanaethu a chynrychioli cymunedau lleiafrifol ethnig yn well gan systemau democrataidd presennol a mecanweithiau eraill, llai ffurfiol ond pwysig, o gyfranogi.

Er mwyn cefnogi mwy o gynrychiolaeth, mae angen cefnogaeth a gweithredu gan bleidiau gwleidyddol mewn prosesau dethol ymgeisywyr a mesurau i ehangu aelodaeth y pleidiau, a chan sefydliadau'r llywodraeth wrth ddarparu gwybodaeth amhleidiol am etholiadau a phynciau perthnasol eraill, megis gwybodaeth gyffredinol am rôl cynghorwyr.

Felly, y ffordd orau o gyflawni seneddau a Chynghorau cynrychioliadol fydd drwy gydweithredu eang. Gall hyn gynnwys ymrwymadau trawsbleidiol ar gefnogi amrywiaeth mewn democratiaeth, ac mae hwn yn un o argymhellion ein Tasglu.

Mae'n bwysig cydnabod bod terfynau naturiol i'r hyn y gall y Cyngor ei gyflawni gan weithredu ar ei ben ei hun fel sefydliad wrth gyflawni ein hargymhellion yn erbyn y thema hon. Fodd bynnag, rydym yn annog y Cyngor i gefnogi a hwyluso dulliau gwrthrychol cyffredinol sy'n cyfrannu at well ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r calendr democrataidd, cofrestru pleidleiswyr a'r nifer sy'n pleidleisio ac agweddau pwysig eraill ar ein hargymhellion ynghylch cyfranogiad dinesig ehangach a llais ym mywyd y ddinas.




⁷ www.britishelectionstudy.com

⁸ Y Comisiwn Etholiadol, Voter engagement among Black and Ethnic Minority Communities

⁹ www.hansardsociety.org.uk/projects/audit-of-political-engagement

3.1

ARGYMHELLIAD:



Gwella'r broses o gasglu a dadansoddi data ar gyfranogiad dinesig

MANYLU:

Mae ein hargymhelliad cyntaf yn erbyn y thema hon yn ymwneud â chasglu a dadansoddi data ar gyfranogiad dinesig, yn enwedig o ran data demograffig Cynghorwyr. Ar ddechrau'r Tasglu, nid oedd unrhyw ddata ar lefel leol ar gael i roi mewnwelediad i lefelau presennol o gynrychiolaeth o leiafrifoedd ethnig ar draws aelodau etholedig Cyngor Caerdydd.

Gofynnwyd i dim Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor gynnal arolwg yn ystod cam datblygu cynnig y Tasglu i roi mewnwelediad i dirwedd ddemocrataidd bresennol y ddinas. Mae hyn wedi'i gwblhau ac mae'r canlyniadau wedi'u darparu yn yr adran ddata ar ddechrau'r bennod hon.

Wrth symud ymlaen, rydym yn argymhell bod y Cyngor yn casglu data cydraddoldeb ar ddechrau tymor bwrdeistrefol newydd yn dilyn etholiad ac yn cwblhau dadansoddiad o'r data hwn yn ôl y nodweddion gwarchoddedig a restrir yn y Ddeddf Cydraddoldeb. Dylai'r dadansoddiad hwn hefyd fod ar gael i'r cyhoedd.

Gellid defnyddio rhagor o ddata perthnasol ar gyfranogiad i ategu hyn o waith ehangach y Cyngor i ymgysylltu â'r gymuned, gan gynnwys data demograffig ar gyfer ymgynghoriadau allweddol megis y Gyllideb ac arolwg blynyddol trigolion y ddinas, Holi Caerdydd. Darperir y wybodaeth hon fel mater o drefn mewn adroddiadau cyhoeddus ond gellid ei dwyn ynghyd i greu un lle i ddarparu cyfres o ddangosyddion dinas ar gyfranogiad a chynrychiolaeth.



3.2

ARGYMHELLIAD:



Cefnogi maniffesto Cynghrair Hil Cymru a chwblhau gwaith meincnodi yn erbyn eu hargymhellion i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yng Nghymru

MANYLU:

Menter dan arweiniad lleiafrifoedd ethnig yw Cynghrair Hil Cymru (RAW) sy'n ceisio darparu gofod hunangyfeiriedig lle gall sefydliadau ac unigolion Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig gydweithio ar atebion i fynd i'r afael â materion anghyfiawnder hiliol yng Nghymru.

Datblygwyd maniffesto Cynghrair Hil Cymru drwy aelodaeth eang o ddinasyddion o leiafrifoedd ethnig Cymru drwy gyfres o gyfarfodydd a thrafodaethau, gan ddefnyddio data perthnasol, fel y mae Tasglu Caerdydd wedi gwneud, i lunio eu hargymhellion polisi.

Mae'r maniffesto wedi'i gwblhau yn adlewyrchu blaenoriaethau polisi dinasyddion lleiafrifoedd ethnig Cymru, ar ôl cael eu cynhyrchu drwy drafodaethau helaeth a chydweithredol drwy gydol y pandemig ac yn sgil y mudiad rhyngwladol Mae Bywydau Du o Bwys.

Yng ngoleuni'r hyn sy'n ymddangos, o leiaf, yn ddiffyg democrataidd rhannol ar gyfer grwpiau lleiafrifol ethnig, a amlinellir yn y data ar ddechrau'r bennod hon, mae'r Tasglu yn argymhell bod y Cyngor yn myfyrio ar ei gynnydd a'i weithgarwch perthnasol i gyflawni argymhellion Maniffesto Cynghrair Hil Cymru a'r argymhellion.

Mae'r argymhellion hyn yn bellgyrhaeddol ac nid cyfrifoldeb polisi'r Cyngor yw pob maes, ond wrth bennu blaenoriaethau polisi newydd yn dilyn etholiadau llywodraeth leol 2022 yng Nghymru, mae'r gwaith hwn yn rhoi mewnwelediad pwysig i brofiadau ac anghenion trigolion o leiafrifoedd ethnig.

Fel prifddinas Cymru, bydd cyflawni'r argymhelliad hwn yn cyfrannu at sefyllfa Caerdydd fel arweinydd wrth hyrwyddo cydraddoldeb hiliol ac yn annog Cynghorau eraill a sefydliadau cyhoeddus i fyfrio ar eu hymateb eu hunain i anghydraddoldebau parhaus y ceir tystiolaeth dda ohonynt ymhlith pobl o leiafrifoedd ethnig mewn cymdeithas fodern yng Nghymru.



3.3


ARGYMHELLIAD:



Cwmpasu cyfleoedd i gynyddu cyfranogiad pobl ifanc ac ymgysylltu â phrosesau dinesig a datblygu mecanweithiau i gefnogi cynrychiolaeth ieuencid o leiafrifoedd ethnig mewn gwleidyddiaeth ac wrth wneud penderfyniadau

Golwg ar: Cyfranogiad pobl ifanc mewn gwleidyddiaeth, Crynodeb o'r dystiolaeth

- Yn Etholiad Cyffredinol y DU yn 2017, trodd pobl ifanc allan i bleidleisio mewn niferoedd uwch nag ar unrhyw adeg arall ers 25 mlynedd.
- Mae ymchwil pleidleisio gan Ipsos MORI yn awgrymu bod y nifer a bleidleisiodd yn 2019 yn amrywio o 47% ymhlith pobl ifanc 18 i 24 oed hyd at 74% ymhlith pobl dros 65 oed. Roedd hwn yn fwlch ehangach nag yn 2017, pan fesurodd yr un cwmni y nifer a bleidleisiodd ar 54% a 71% yn y drefn honno yn y grwpiau oedran hyn.¹
- Yn etholiadau Senedd Cymru 2021, mae data'r arolwg barn yn awgrymu mai dim ond 46% o bobl ifanc 16–17 oed a ddefnyddiodd eu hawliau pleidleisio newydd ac mai cofrestru pleidleiswyr ifanc ar gyfer pobl ifanc 16–17 oed yng Nghaerdydd oedd yr isaf o unrhyw ardal awdurdod lleol, sef 34.72%.²
- Canfu'r Astudiaeth Etholiadol o Leiafrifoedd Ethnig (EMBES), er bod oedran yn ffactor arwyddocaol sy'n pennu'r nifer sy'n pleidleisio ar draws pob grŵp ethnig, fod effaith oedran mewn gwirionedd yn wannach i grwpiau lleiafrifol ethnig nag ar gyfer pobl ifanc Gwyn Prydeinig.³



Delwedd wedi'i dyfynnu o: Etholiadau Cymru: At least 35,000 young people not registered to vote - BBC News

Ffynonellau:

1. Ipsos Mori, How Britain voted in the 2019 election, How Britain voted in the 2019 election | Ipsos
2. Data Awdurdodau Lleol, Stats Cymru, delweddu o BBC Cymru, Welsh elections: At least 35,000 young people not registered to vote, <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-56919775>
3. Heath, Anthony F., et al. "British Election Study Ethnic Minority Survey." Gwasanaeth Data'r DU. SN 6970 (2010).(2010).

MANYLU:

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf gwelwyd trafodaeth bryderus am ddifaterwch gwleidyddol ieuencid yn y DU, sy'n gysylltiedig â lefelau isel o gyfranogiad etholiadol ymhlith pobl ifanc 18–24 oed.

Mae diffyg ymgysylltu â phobl ifanc mewn gwleidyddiaeth brif ffrwd yn sicr yn bwysig yn nhermau democratiaeth ond ni ddylai arwain at y casgliad bod pobl ifanc yn ddifater ynghylch materion gwleidyddol.

Mae'r ddwy flynedd ddiwethaf yn arbennig wedi dangos y byddai'n well ganddynt gael gramadeg o weithredu ar gyfer pobl ifanc Caerdydd ar faterion sy'n bwysig iddynt, gyda ffafriaeth glir i ffurfiau ymarferol, uniongyrchol o weithredaeth a thuedd i ysgogi grwpiau a rhwydweithiau gorwelol, wedi'u ffurfio'n llac yn hytrach nag integreiddio fertigol â sefydliadau a systemau democrataidd ffurfiol i greu newid.

Mae'r posibilrwydd o gysylltu pobl ifanc â sefydliadau gwleidyddol prif ffrwd yn dibynnu ar allu sefydliadau i addasu cyfleoedd cyfranogol i'r mathau mwy gwastad, wedi'i rwydweithio mwy, personol, 'DIY' o weithredaeth.

Ar lawer ystyr, gallai'r ymagwedd a ddefnyddiwyd wrth sefydlu a chyflwyno Tasglu Cydraddoldeb Hilioi Caerdydd, gyda thrigolion y ddinas yn cyd-gynhyrchu atebion dinas drwy broses gefnogol o ddeialog a chydweithredu, ddarparu glasbrint ar gyfer ymgysylltu â thrigolion yn y dyfodol wrth lunio polisiâu. Gallai'r dulliau hyn helpu i gysylltu pobl ifanc â gwneud penderfyniadau gwirioneddol mewn ffordd ystyrlon.

Wrth bennu'r blaenoriaethau ar gyfer ein Tasglu, dangosodd ein hymgyngoriad cyhoeddus awydd clir i symud pŵer o'r canol i gymunedau. Mae Prydain yn yr 21ain ganrif wedi gweld ymleiddio'r rheini ar incwm isel ac ehangu anghydraddoldeb incwm.¹⁰ Mae'n ddealladwy bod hyn wedi arwain at ddadurithiad gwleidyddol a diffyg cyfranogiad, ac er nad yw'r ffenomena hyn wedi'u cyfyngu i'n dinas o bell ffordd, maent yn faterion cymhleth a ddylai beri pryder i bob un ohonom, waeth beth fo'n credoau gwleidyddol personol.

Yn ein hymgyngoriad ac o dystiolaeth arall yr ydym wedi'i hystyried, roedd cydberthynas glir rhwng dosbarth cymdeithasol, defnyddio data cod post a'r mynegai amddifadedd, ac i ba raddau y mae pobl leol yn teimlo nad ydynt yn cael eu cyflwyno'n ddigonol ac yn methu â

dylanwadu ar y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud am eu bywydau a'u dinas.

Mae gan hil a dosbarth groestoriad cymhleth a phwysig ac mae'n hanfodol cydnabod bod y ffactorau ychwanegol o wahaniaethu ar sail hil a rhagfarn yn rhwystrau ychwanegol i bobl ifanc o leiafrifoedd ethnig dosbarth gweithiol wrth gyflawni eu dyheadau a'u potensial llawn.

Mae hunaniaethau dosbarth modern yn gymhleth i'w diffinio ond ar gyfer pobl ifanc o leiafrifoedd ethnig sy'n tyfu i fyny mewn teuluoedd incwm isel, mae'n amlwg bod ffactorau hil a dosbarth yn llywio eu cyfleoedd a'u cyfyngiadau a osodir arnynt drwy stereoteipiau, rhagfarn a disgwyliadau cymdeithasol am eu canlyniadau a'u cyflawniadau. Dangosir hyn mewn cyfoeth o ddata swyddogol gan y llywodraeth ac ymchwil a adolygwyd gan gymheiriaid.

Mae'r rhyngweithio cymhleth hwn yn arwain y Tasglu i argymhell yn benodol bod ymdrechion newydd yn cael eu gwneud i roi grym yn nwylo pobl ifanc o leiafrifoedd ethnig Caerdydd.

Rhaid sicrhau bod cyfleoedd newydd ar gael i bobl ifanc sydd ar y cyron i'w galluogi i leisio eu barn a dylanwadu ar newid yn y ddinas.


Dylai'r mecanweithiau ar gyfer gwneud hynny gael eu cynllunio gan y bobl ifanc y bwriedir iddynt eu cyrraedd felly nid ydym yn rhagnodi model penodol yn ein hargymhelliad, fodd bynnag, clywoddy y Tasglu am raglenni addawol o bob rhan o'r DU, gan gynnig datblygu sgiliau gwleidyddol, addysg ddemocrataidd ac adeiladu gallu i greu newid mewn cymunedau dosbarth gweithiol â phobl ifanc o gefndiroedd ethnig amrywiol.

Fel Tasglu, rydym yn annog datblygu dulliau newydd o ddatblygu arweinyddiaeth ieuencid sy'n ymateb i'r materion rydym wedi'u hamlinellu ac yn cefnogi'n benodol pobl ifanc o leiafrifoedd ethnig o gefndiroedd sydd wedi'u hymleiddio'n draddodiadol i ddatblygu'r sgiliau, y mewnwelediadau, y rhwydweithiau a'r hunangred sydd eu hangen i anelu am swyddo o bwerau dylanwad, yn ffurfiol ac yn anffurfiol.

¹⁰ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Household Income Inequality, UK: financial year ending 2020, <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/personalandhouseholdfinances/incomeandwealth/bulletins/householdincomeinequalityfinancial/financialyearending2020>

3.4

ARGYMHELLIAD:



Dylai aelodau etholedig Cyngor Caerdydd gefnogi Datganiad Cyngor Amrywiol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i gefnogi amrywiaeth mewn democratiaeth a chynrychioli grwpiau lleiafrifol ethnig yn y brifddinas

MANYLU:

Er bod Caerdydd yn perfformio'n well na llawer o Gyngorau o ran amrywiaeth cynghorwyr, nid yw pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, menywod, pobl iau na'r rhai ag anabledd yn cael eu cynrychioli'n gymesur eto yn siambrau Cyngor prifddinas Cymru.

Un o'n hargymhellion cynnar yn y thema hon oedd i Gyngor Caerdydd fabwysiadu argymhellion adroddiad Amrywiaeth mewn Democratiaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC). Mae'r adroddiad hwn yn benllanw gweithgor trawsbleidiol i gefnogi cynrychiolaeth gynyddol o grwpiau lleiafrifol ar draws Cyngorau Cymru a sicrhau amgylchedd cefnogol i Gyngorwyr sy'n camu ymlaen i gynrychioli eu gymuned.

Bydd gweithredu'r argymhellion yn adroddiad CLILC yn gofyn am weithredu gan Dîm Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor, y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a dulliau trawsbleidiol. Mae'r Tasglu Cydraddoldeb Hilioi o'r farn bod yn rhaid cael ymrwymiad parhaus gan bob plaid i gefnogi ymdrechion i gynyddu amrywiaeth ethnig os yw siambrau'r Cyngor am gadw i fyny â Chaerdydd fodern ac edrych fel y ddinas y mae'n ei chynrychioli.

Wrth fabwysiadu argymhellion yr adroddiad Amrywiaeth mewn Democratiaeth, dylai'r Cyngor gefnogi Datganiad y Cyngor Amrywiol fel ymrwymiad cyhoeddus a sicrhau bod argymhellion yr adroddiad yn cael eu gweithredu drwy gynllun gweithredu clir yn dilyn etholiadau Llywodraeth Leol 2022 yng Nghymru i gynnwys aelodau etholedig newydd yn y fenter bwysig hon ar gyfer y ddinas.



3.5

ARGYMHELLIAD:



Gwella cynrychiolaeth o gymunedau lleiafrifol ethnig Caerdydd ar baneli sy'n gwneud penderfyniadau allweddol

MANYLU:

Mae'r argymhelliad hwn yn cyfeirio at farn y Tasglu y dylai paneli gwneud penderfyniadau, byrddau cynghori a phwyllgorau yn y ddinas adlewyrchu barn a phrofiadau cyfran gynyddol Caerdydd o drigolion o leiafrifoedd ethnig. Nid yw hyn yn ymwneud ag agenda wleidyddol nag ymagwedd cwota ond sicrhau amrywiaeth o feddwl a gwneud penderfyniadau gwybodus sy'n adlewyrchu anghenion, blaenoriaethau ac uchelgeisiau ein dinas.

Yn benodol, dylai sefydliadau ym mhrifddinas Cymru ystyried nifer yr achosion o baneli gwyn yn unig a dynion yn unig, a chmau i sicrhau mwy o gynrychiolaeth o wir amrywiaeth y ddinas ar draws paneli perthnasol.

Wrth ddatblygu ein cynigion, clywodd y Tasglu'n gyson fod diffyg gwelededd mewn swyddi o bwerau anfon neges isganfyddol i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol bod eu barn yn ddibwys. Ni fydd cywiro hyn yn digwydd ar unwaith ond mae'n weithred y mae angen i bob cynrychiolydd etholedig a swyddog cyhoeddus yn y ddinas, o bob rhan o'r llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus, gymryd atebolrwydd personol a chyfunol ar ei gyfer.

Man cychwyn naturiol fydd ystyried pwyllgorau statudol lleol yn dilyn Etholiad Llywodraeth Leol 2022, ond fel gyda'n hargymhelliad blaenorol, dim ond gyda chyfranogiad ac ymrwymiad ar sail drawsbleidiol y gellir cyflawni hyn wrth i bleidiau gwleidyddol wneud eu henwebiadau i'r pwyllgorau hyn ar ddechrau'r tymor bwrdeistrefol.

Y tu hwnt i bwyllgorau a byrddau lle mae aelodau etholedig yn gwasanaethu ac yn cynrychioli'r ddinas, dylai'r egwyddorion hyn hefyd fod yn berthnasol mewn ystyr ehangach. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod trefnwyr digwyddiadau a chynadledau yn ystyried cymysgedd priodol o siaradwyr, bod rheolwyr cyflogi yn myfyrio ar amrywiaeth eu paneli recriwtio gan gynnwys gwahodd aelodau allanol o'r panel lle y bo'n briodol, a bod gwasanaethau cyhoeddus yn myfyrio'n gyson ar bwy y maent yn eu cyrraedd gyda'u gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu ac yn ceisio sicrhau cynrychiolaeth o safon.

Er ein bod wedi canolbwyntio'n bennaf ar ryw ac ethnigrwydd, mae hefyd yr un mor bwysig sicrhau bod y camau hyn yn cynnwys y gymuned LHDTC+ a'r rhai ag anableddau.

3.6

ARGYMHELLIAD:



Ehangu cyfranogiad a hygyrchedd wrth gynllunio dinasoedd a sicrhau bod llwyfannau priodol ar gyfer ymgysylltu a llais cymunedol wrth ddylunio'r ddinas

Golwg ar: Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd

Mae Cyngor Caerdydd wrthi'n paratoi ei Gynllun Datblygu Lleol (CDLI) newydd ar gyfer y ddinas.

Bydd y CDLI yn helpu i lunio Caerdydd am y 15 mlynedd nesaf hyd at 2036 gan sicrhau bod y datblygiad cywir yn digwydd yn y lle iawn ar yr adeg iawn, gan fod o fudd i gymunedau a'r economi a nodi pa ardaloedd y mae angen eu diogelu.

Mae sawl cam wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol fel y nodir yn ein Cytundeb Cyflawni Cynllun Datblygu Lleol.

Mae'r Rheoliadau CDLI yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor weithio mewn partneriaeth ag ystod eang o randdeiliaid wrth baratoi'r CDLI, gan gynnwys cyrff ymgynghori penodol a chyffredinol a'r cyhoedd. I wybod mwy am broses y Cynllun Datblygu Lleol a sut y gallwch gymryd rhan ewch i: <https://www.cardiffldp.co.uk/cy/>



MANYLU:

Cynllunio trefol yw'r grefft o roi siâp, dyluniad a strwythur i ddinasoedd a threfi. Mae'n cynnwys prosesau amrywiol fel trefnu a dylunio adeiladau, systemau trafnidiaeth, manau cyhoeddus yn ogystal ag amwynderau cyhoeddus da. Yng nghyd-destun argyfwng hinsawdd, mae wedi dod yn fwyfwy pwysig defnyddio'r tir a'r seilwaith sydd ar gael yn y ffordd orau bosibl, yn enwedig mewn dinasoedd â phoblogaethau sy'n tyfu'n gyflym a lle cyfyngedig.

Er mwyn gwasanaethu trigolion yn effeithiol, rhaid i brosesau cynllunio trefol ymgysylltu â realiti demograffig prifddinas Cymru. Mae hyn yn cynnwys deall anghenion ein poblogaeth sy'n tyfu'n gyflym ac yn gynyddol amrywiol, gan gydnabod arwyddocâd cymdogaethau yn ardal y dociau traddodiadol i'n cymunedau Pobl Dduon a lleiafrifoedd ethnig hirsefydlog a thwf cyflym cymuned myfyrwr rhyngwladol Caerdydd.

Mae'r berthynas hanesyddol rhwng cynllunio dinasoedd a chymunedau lleiafrifol ethnig ein dinas wedi bod yn gymhleth. Mae ein Tasglu yn deall barn y gymuned nad oedd datblygu Tiger Bay yn sicrhau'r manteision angenrheidiol i gymunedau lleiafrifol ethnig hirsefydlog Caerdydd y mae eu hynafiaid wedi byw ar strydoedd Butetown ers dros ganrif. Dros amser, mae'r newidiadau hyn wedi dod i'w gweld fel y ffordd y mae cymdogaeth draddodiadol cymunedau amrywiol yn cael ei hystyried yn ofalus wrth gynllunio a llunio polisïau mewn dinasoedd yn y dyfodol.

Mae'r man cychwyn hwn yn gwneud penderfyniadau cynllunio yn y dyfodol ynghylch datblygu Glanfa'r Iwerydd yn adeg dyngedfennol i ailosod a darparu asedau cymunedol gan gynnwys tai a chyffleoedd gwaith i bobl leol o leiafrifoedd ethnig ac rydym wedi gwneud argymhelliad mewn perthynas â hyn yn gynharach yn ein hadroddiad yn y bennod Cyflogaeth a Gweithlu Cynrychioladol.

Y tu hwnt i hyn, dylid cryfhau mecanweithiau i gefnogi ymgysylltiad a llais dinasyddion mewn penderfyniadau arwyddocaol ynghylch dyluniad ein dinas yn y dyfodol. Mae cyfraith cynllunio yn hynod gymhleth ac anhryloyw i'r cyhoedd. Dylai lleoli cynllunwyr fel eu bod yn fwy effeithiol, creadigol a gweladwy wrth ymgysylltu â gwahaniaeth ethnig a hiliol yn y ddinas gyfoes fod yn flaenoriaeth.

Mae'r Tasglu o'r farn bod tri rhyngwyneb hanfodol ar gyfer ymgysylltu yn y dyfodol:

- Diwallu anghenion tai'r ddinas, yn enwedig o ran tai fforddiadwy, y mae galw sylweddol amdanynt yn gyffredinol ar draws pob grŵp ethnig ac anghenion tai penodol ar gyfer grwpiau lleiafrifol ethnig yn y ddinas
- Cynlluniau datblygu economaidd a sicrhau bod y rhain yn cysylltu â realiti'r farchnad lafur ar gyfer cymunedau lleiafrifol ethnig ac yn darparu cyfleoedd ystyrlon a mesuradwy
- Cynllunio ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a manau cyhoeddus ehangach ac ystyried eu hygyrchedd a'u dyluniad er mwyn diwallu anghenion grwpiau lleiafrifol ethnig yn y ffordd orau

Dylai'r adran Gynllunio adolygu eu mesurau hygyrchedd presennol ar gyfer Gwasanaethau Cynllunio er mwyn helpu defnyddwyr i deall prosesau a gweithdrefnau'n well a chefnogi ymgysylltu â'r cyhoedd ar faterion cynllunio pwysig. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth syml sy'n wynebu'r cyhoedd sy'n cwmpasu, er enghraifft: beth mae cynllunio'n ei wneud, pam y maent yn ei wneud, yr hyn y gall defnyddwyr ei wneud, pa weithdrefnau sydd ar waith yng Nghaerdydd a pha wybodaeth y gellir ei darparu i ddefnyddwyr i'w helpu i ddeall cynllunio yng Nghaerdydd.

Y tu hwnt i ddarparu gwybodaeth, mae ymgysylltu â'r Gymuned yn gweithio orau lle mae'n broses gronol barhaus sy'n galluogi i berthnasoedd ac ymddiriedaeth adeiladu a chryfhau dros amser.

Wrth i'r Cyngor baratoi ei Gynllun Datblygu Lleol nesaf, dylid cynllunio a dylunio digwyddiadau ymgysylltu unigol gyda hyn mewn golwg a cheisio cyfrannu at nodau cyffredinol y broses ymgysylltu.

Efallai y bydd grwpiau cymunedol neu wirfoddol am gymryd rhan ar amrywiaeth o lefelau – o roi cyngor i gyd-gynllunio'r broses ac o ymgymryd â rhai agweddau ar yr ymgysylltu â chyflawni prosiectau i gyflawni rhai o'r canlyniadau.

Thema 4: Iechyd

Mewnwelediadau Data: Iechyd

Ceir anghydraddoldebau iechyd rhwng grwpiau lleiafrifol ethnig a grwpiau gwyn, a rhwng gwahanol grwpiau lleiafrifol ethnig. Mae'r darlun yn gymhleth, rhwng gwahanol grwpiau ethnig ac ar draws gwahanol gyflyrau, ac mae dealltwriaeth wedi'i chyfyngu gan ddiffyg data o ansawdd da.

Iechyd a Hil: Darlun cymhleth

- Mae sgoriau ansawdd bywyd sy'n gysylltiedig ag iechyd ar oedrannau hŷn, yn is na'r cyfartaledd ymhlith y rhan fwyaf o grwpiau lleiafrifol ethnig, yn enwedig y grwpiau Sipsiwn Gwyn a Theithwyr Gwyddelig, Bangladeshaidd a Phacistaanaidd, ond nid ymhlith rhai eraill (grwpiau Du Caribiaidd, Du Affricanaidd a Chymysg).
- Mae gan grwpiau lleiafrifol ethnig hefyd fwy o achosion o rai cyflyrau hirdymor, ond nid ar gyfer eraill
- Dengys dadansoddiadau fod gan y rhan fwyaf o grwpiau lleiafrifol ethnig lai o farwolaethau cyffredinol na chymheiriaid gwyn ond hefyd bod y fantais marwolaethau hon yn cael ei lleihau yn eu disgynyddion a anwyd yn y DU
- Mae gan rai grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig gyfraddau uwch o rai cyflyrau iechyd. Er enghraifft, mae gan boblogaethau sy'n ddisgynyddion De Asiaidd a Charibiaidd risg sylweddol uwch o ddiabetes; mae poblogaethau sy'n ddisgynyddion Bangladeshaidd yn fwy tebygol o osgoi alcohol ond ysmegu ac mae anemia crymangell yn anhwylder gwaed a etifeddir, sy'n effeithio'n bennaf ar bobl o dras Affricanaidd neu Garibiaidd.

Mae'n anodd dangos achosion anghydraddoldebau ethnig mewn iechyd. Awgryma'r dystiolaeth sydd ar gael ryngchwarae cymhleth o amddifadedd, ymddygiadau amgylcheddol, ffisiolegol, sy'n gysylltiedig ag iechyd a'r 'effaith fudol iach'

Effeithir yn anghymesur ar grwpiau lleiafrifol ethnig gan amddifadedd economaidd-gymdeithasol, sy'n ffactor allweddol sy'n pennu statws iechyd ym mhob cymuned, ond nid yw'n glir a yw'r berthynas yr un mor berthnasol ar draws pob grŵp ethnig.


ESBONIAD:

Yr 'effaith fudol iach' yw'r fantais marwolaethau mewn mudwyr o'i gymharu â'r boblogaeth fwyafrifol mewn gwledydd lletyol a adroddir mewn llawer o wledydd. Gallai fod o ganlyniad i fudo dethol unigolion iach a/neu ffyrdd iachach o fyw fel llai o ysmegu ac yfed alcohol.

Maes Iechyd: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Mae'r maes iechyd ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn cynnwys pedwar dangosydd: achosion o ganser; salwch hirdymor cyfyngol; cyfradd marwolaethau pob achos; a phwysau geni isel.

Mae cyfran uchel o grŵp ethnig Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Prydeinig Caerdydd (31.7%) yn byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Caerdydd ym maes iechyd WIMD.



COVID-19

Er bod pandemig y coronafeirws wedi creu ofnau a risgiau eang i fywydau a bywoliaethau ar draws cymunedau yng Nghymru a ledled y byd, mae'r effeithiau ar grwpiau o Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig wedi bod yn arbennig o ddwys.

Mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith anghymesur ar gymunedau lleiafrifol ethnig, sydd wedi profi cyfraddau heintio a marwolaethau uwch na'r boblogaeth wyn. Roedd daearyddiaeth, amddifadedd, galwedigaeth, trefniadau byw a chyflyrau iechyd fel CVD a diabetes yn cyfrif am gyfran fawr, ond nid pob un, o'r risg marwolaethau ychwanegol o Covid-19 mewn grwpiau lleiafrifol ethnig. Mae Covid-19 wedi gwrthdroi'r darlun blaenorol ar gyfer rhai grwpiau lleiafrifol ethnig sydd bellach â marwolaethau cyffredinol uwch na'r boblogaeth wyn.

Yn dilyn pandemig Covid-19, mae GIG Cymru yn cymryd camau i wella cofnodi ethnigrwydd mewn cofnodion iechyd a dylai casglu data yn y dyfodol hwyluso gwell dealltwriaeth o wahaniaethau ethnig mewn iechyd.

Rhwng mis Ebrill a mis Mai 2020, canfu ymchwil gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod unigolion

o gefndir Asiaidd/Asiaidd Prydeinig 4.8 gwaith yn fwy tebygol o brofi'n positif i COVID-19 na phobl o ethnigrwydd Gwyn¹¹

Yn ogystal, roedd cyfraddau marwolaeth COVID-19 fesul 100,000 o'r boblogaeth 2.7 a 2.0 gwaith yn uwch ar gyfer dynion a menywod o gefndir ethnig Du-Affricanaidd o gymharu â rhai o ethnigrwydd Gwyn.

Mewn adroddiad diweddar arall, archwiliodd ONS y berthynas rhwng ethnigrwydd a marwolaethau COVID-19 drwy adeiladu model aml-amrywiol yn i gymryd nifer o ffactorau i ystyriaeth. Roedd y rhain yn cynnwys oedran, iechyd, daearyddiaeth, newidynnau economaidd-gymdeithasol a galwedigaeth.

Ar ôl addasu ar gyfer yr holl ffactorau hyn, canfu'r adroddiad gyfraddau marwolaeth ystadegol arwyddocaol ar gyfer dynion a menywod o grŵp ethnig Du Affricanaidd, Du Caribiaidd, Indiaidd, Pacistaanaidd ac arall. Ar ôl addasu, o'i gymharu â dynion Gwyn; roedd cyfradd y marwolaethau ymhlith dynion Du Affricanaidd 2.3 gwaith yn fwy, i ddynion Bangladeshaidd roedd 1.9 gwaith yn fwy, ar gyfer dynion Du Caribiaidd 1.7 gwaith yn fwy ac ar gyfer dynion Pacistaanaidd 1.6 gwaith yn fwy.¹²

¹¹ ONS, Coronavirus and the social impacts on different ethnic groups in the UK:2020, Coronavirus and the social impacts on different ethnic groups in the UK: 2020 - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

¹² Updating ethnic contrasts in deaths involving the coronavirus (COVID-19), England and Wales: deaths occurring 2 March to 28 July 2020, Updating ethnic contrasts in deaths involving the coronavirus (COVID-19), England and Wales - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

Golwg ar: Arsyllfa Hil ac Iechyd y GIG

Sefydlwyd Arsyllfa Hil ac Iechyd newydd y GIG gan Gydffederasiwn y GIG i archwilio anghydraddoldebau iechyd ethnig (canlyniadau a phrofiadau).

Bydd yr Arsyllfa yn gweithio tuag at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ethnig a hiliol mewn gofal iechyd ymhlith cleifion, cymunedau a gweithlu'r GIG. Bydd yn ymchwilydd rhagweithiol, yn gwneud argymhellion sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer newid ac yn helpu i hwyluso gweithredu'r argymhellion hynny'n ymarferol ar draws iechyd a gofal.

Mae gan yr Arsyllfa bum ffrwd waith:

1. Gwella iechyd a gofal: Canolbwyntio ar feysydd ym maes iechyd a gofal sydd wedi dangos anghydraddoldebau ethnig ers amser maith o ran mynediad, profiad neu ganlyniadau, gan weithio i ail-lunio polisi ac ymarfer fel eu bod yn cefnogi iechyd a gofal teg i bawb, o iechyd newyddenedigol i ofal diwedd oes.
2. Grymuso Cymunedau Sy'n Agored i Niwed: Y rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas yn aml yw'r rhai sy'n profi effaith gronnol anghydraddoldebau iechyd. Bydd gwaith yr Arsyllfa yn y maes hwn yn meithrin dealltwriaeth o benderfynyddion cymdeithasol cymhleth iechyd yn ogystal â'r effaith ddilynol a all gael ar ddewisiadau personol unigol.
3. Arloesi i bawb: Mae gan dechnoleg ddigidol botensial mawr i wella'r ffordd y mae'r sectorau iechyd a gofal yn darparu eu gwasanaethau mewn ffordd fodern; darparu gofal cyflymach, mwy diogel a mwy cyfleus. Mae'n hanfodol bod dulliau, technolegau a strwythurau casglu data newydd ac arloesol yn cael eu cynllunio i helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd ethnig.
4. Creu amgylcheddau teg: ailadeiladu a chefnogi systemau iechyd a gofal, newid ysgogiadau ac ymddygiadau arwain rheolwyr – mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ethnig a hyrwyddo ansawdd gofal, diogelwch, tosturi a phrofiad tecach i gleifion, staff y GIG a chymunedau amrywiol fel ei gilydd.
5. Cydweithio'n fyd-eang: gweithio'n genedlaethol ac yn rhyngwladol, cysylltu â sefydliadau a rhanddeiliaid allweddol o bob rhan o'r wlad a ledled y byd a rhannu ymchwil, ymarfer a dysgu arloesol rhwng cymunedau ac ar draws ffiniau.

Darganfyddwch fwy: <https://www.nhs.uk/>



IECHYD: EIN HARGYMHELLION

Mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, cytunwyd ar dair blaenoriaeth gyda'n Tasglu ar gyfer datblygu yn y dyfodol. Roedd cyd-destun y pandemig parhaus a'r dystiolaeth a ddaeth i'r amlwg ar effaith anghymesur COVID-19 ar grwpiau lleiafrifol ethnig yn golygu bod pob un o'r argymhellion a amlinellir yn yr adran hon wedi'u datblygu ar fyrder yn ystod rhaglen y Tasglu.

Mae'r argymhellion yn y bennod hon yn ymateb i ganfyddiadau cynnar a myfyrdodau ynghylch anghydraddoldebau iechyd lleiafrifoedd ethnig ar ddechrau pandemig Covid-19 a'r ffaith bod prinder data yn cyfyngu ar y cyfleoedd presennol i ganolbwyntio ar welliannau a diwygiadau ehangach i wasanaethau yn y tymor uniongyrchol a'r tymor hwy.

Bydd y tri maes blaenoriaeth hyn yn cyfrannu at well dealltwriaeth o ganlyniadau iechyd trigolion o leiafrifoedd ethnig ac yn cefnogi gwell ymgysylltiad rhwng y bwrdd iechyd a thrigolion o leiafrifoedd ethnig Caerdydd ar lefel leol.



4.1

ARGYMHELLIAD:



Gwella'r broses o gofnodi ethnigrwydd o fewn y system gofal iechyd, ar gyfer cleifion a staff

MANYLU:

Mae data ethnigrwydd yn hanfodol er mwyn gwella iechyd a lles pobl o gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleafrifoedd Ethnig.

Mae diffyg proffilio data ethnigrwydd ar gleifion sy'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru a'r DU yn ehangach wedi rhwystro datblygiad gwybodus ansawdd gofal ac ymdrechion ymchwil ar gyfer poblogaethau ethnig amrywiol. Mae ymchwil helaeth wedi esbonio rôl hanfodol data iechyd o ran:

- cefnogi asesiadau o anghenion a chynllunio gwasanaethau
- galluogi monitro tegwch mynediad a chanlyniadau
- llywio ymarfer clinigol
- gwella'r dystiolaeth ar anghydraddoldebau mewn risgiau a chanlyniadau sy'n seiliedig ar y boblogaeth
- cefnogi ymchwil o ansawdd uchel

